Nodiadau ar

Siwan

Saunders Lewis

Nodiadau i fyfyrwyr
Cymraeg Safon Uwch gan

Huw Richards

caa
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

ⓗ Prifysgol Aberystwyth, 2012 ©

Mae hawlfraint ar y deunyddiau hyn ac ni ellir eu hatgynhyrchu na'u cyhoeddi heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint.

Paratowyd gan CAA, Prifysgol Aberystwyth, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB (www.aber.ac.uk/caa)

Dyluniwyd gan Richard Huw Pritchard.
Golygwyd gan Fflur Pughe a Cathryn Gwynn.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cydnabyddiaethau

Diolch i Ystâd Saunders Lewis am ganiatâd i atgynhyrchu dyfyniadau o *Siwan*.

Diolch i Rhian Griffiths, Bleddyn Owen Huws, Tegwen Llwyd a Cheryl Roberts am eu harweiniad gwerthfawr.

Dymuna'r awdur ddiolch i Pryderi Jones, Yr Athro Gerwyn Williams ac Alun Jones am eu cymorth a'u harweiniad.

CYNNWYS

1 **Crynodeb o'r ddrama** **1**

2 **Cefndir hanesyddol** **2**

3 **Cyfeiriadaeth yn y ddrama** **4**

4 **Y ddrama** **7**

4.1 Act I – crynodeb
4.2 Act II – crynodeb
4.3 Act III – crynodeb

5 **Cymeriadau** **23**

5.1 Siwan
5.2 Llywelyn
5.3 Gwilym
5.4 Alis

6 **Themau** **30**

6.1 Serch a chariad
6.2 Unigedd
6.3 Bywyd personol a bywyd cymdeithasol
6.4 Dewisiadau
6.5 Gwrthdaro

7 **Trasiedi dramatig** **34**

8 **Arddull y ddrama** **38**

9 **Yr arholiad** **44**

10 **Atodiad: dyfyniadau** **45**

11 **Darllen pellach** **51**

1. Crynodeb o'r ddrama

Mae Siwan (Ffrances), sy'n ferch i'r Brenin John, wedi priodi Llywelyn, tywysog Gwynedd a hynny am resymau gwleidyddol yn bennaf. Mae gwahaniaeth oedran o 22 mlynedd rhwng y ddau. Maent yn cael pedwar plentyn – tair merch ac un mab – ac yn sefydlu teulu brenhinol i reoli Gwynedd a'r rhan fwyaf o Gymru. Trefnir bod Dafydd, mab Siwan a Llywelyn, yn dyweddïo â merch y Ffrancwr, Gwilym Brewys, sydd yn arglwydd ar diriogaeth Brycheiniog. Tra mae'r trefniadau'n mynd rhagddynt mae Siwan yn godinebu gyda Gwilym, ac mae Llywelyn yn dod i wybod am yr odineb. Fel cosb, mae Llywelyn yn carcharu Siwan am flwyddyn ac yn crogi Gwilym. Wrth i'r ddrama ddod i'w therfyn ceir cyfaddawd anesmwyth rhwng Llywelyn a Siwan.

Trwy gyfrwng y ddrama mae'r awdur yn archwilio nifer o themâu, er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng serch a chariad a'r gwrthdaro rhwng bywyd preifat a bywyd cyhoeddus, gwleidyddol.

Rhaid cofio mai ffuglen yw'r ddrama. Er bod digwyddiadau'r ddrama wedi eu seilio ar ddigwyddiadau hanesyddol, nid darn o hanes mohoni. Felly hefyd y cymeriadau – ffrwyth dychymyg Saunders Lewis yw'r modd y maent yn ymddwyn yn y ddrama.

2. Cefndir hanesyddol

Cymru a Lloegr yng nghyfnod y ddrama
Pan ddaeth y Normaniaid o ogledd Ffrainc i Loegr ym 1066, cafodd yr uchelwyr a'r werin Sacsonaidd eu gorthrymu a'u trin yn wael gan y concwerwyr. Dull y Normaniaid o reoli oedd rhannu'r tir rhwng arglwyddi, barwniaid, esgobion a marchogion. Byddent hwy'n cefnogi'r brenin trwy dalu trethi iddo a darparu dynion o'u hardal ar gyfer byddinoedd pan ddeuai rhyfel. Roedd teulu Siwan yn deulu Normanaidd ac felly, i bob pwrpas, Ffrances oedd hi.

Doedd dim llawer yn rhwystro ambell farwn rhag meddiannu rhannau o dir gan farwn cyfagos bob yn awr ac yn y man – os oedd y brenin yn barod i dderbyn hynny. Pan mae Siwan yn trafod sut i achub Gwynedd gyda Llywelyn yn Act III gwelir beth yw'r meddylfryd Normanaidd. Fel hyn roedd y gymdeithas yn gweithio yn y cyfnod.

Y Brenin John (1166-1216) – tad Siwan
Daeth y Brenin John i rym ym 1199. Yn ogystal â'r tiroedd a feddiannodd yn Lloegr, etifeddodd rannau sylweddol o Ffrainc.

Mae tipyn o ddadlau ymhlith haneswyr ynglŷn â pha fath o gymeriad oedd y Brenin John. Mae llawer yn ei weld fel dyn diegwyddor, creulon, cynllwyngar a chyfrwys a oedd yn hoff iawn o fercheta a godinebu gyda gwragedd a oedd yn briod â barwniaid amlwg. A etifeddodd Siwan hyn gan ei thad?

SIWAN: Cefais gyda'm gwaed
Egni nwydwyllt fy nhad. (Act I, tud.40)

Byddai'n defnyddio pobl ac yn barod i wneud unrhyw beth er mwyn gwella ei fyd. Ef yw'r *King John* sy'n cael sylw am orthrymu'r bobl gyffredin yn hanesion *Robin Hood*.

Priododd John ag Isabel o Gaerloyw, ond pan welodd y byddai'n well iddo'n wleidyddol briodi chwaer Phillip, Brenin Ffrainc (Alis) fe adawodd Isabel. Ond newidiodd ei feddwl pan gafodd goron Lloegr, ac yn hytrach na phriodi Alis fel yr addawodd, priododd Isabella o Angoulême yn Ffrainc.

O ran y ddrama, mae'n ddiddorol nodi i Hubert de Burgh briodi cyn-wraig John, sef Isabel o Gaerloyw. Roedd yn ffrind mawr i'r Brenin John wedi iddo ryfela ochr yn ochr ag ef yn Iwerddon a derbyn ffafr frenhinol.

Llywelyn (c. 1172–1240)
Cafodd ei eni tua'r flwyddyn 1172 yn fab i Iorwerth ab Owain, a oedd yn fab hynaf i Owain Gwynedd, tywysog Gwynedd (tua 1100-1170.) Bu farw tad Llywelyn pan oedd Llywelyn yn fachgen ifanc. Erbyn iddo dyfu yn ddyn roedd dau frawd ei dad, Dafydd a Rhodri, yn rheoli Gwynedd, er bod ganddo hawl amlwg fel ŵyr hynaf Owain Gwynedd i ddod i rym fel rheolwr Gwynedd. Daeth yn dywysog Gwynedd wedi i Rhodri farw a gadael iddo gipio'i diriogaeth, a thrwy ryfela yn erbyn Dafydd a chymryd ei dir.

Cafodd blant gyda Thangwystl, sef merch Gruffydd ap Llywelyn, a Margred ferch Llywelyn. Mae'n debyg na phriododd Tangwystl a Llywelyn ac mai dyna pam y cyfeiria Siwan ati yn y ddrama fel 'gordderch', sef rhywun a fyddai yno yn y cefndir am bleserau cnawdol y tu allan i briodas.

Priododd Llywelyn â Siwan, merch y Brenin John, ym 1205 a chawsant blant, sef Gwladus Ddu, Elen, Angharad a Dafydd. Aeth Dafydd ymlaen i reoli wedi i Llywelyn farw, ond ni chafodd etifeddu Gwynedd. Yn eironig, aeth Llywelyn, sef mab Gruffydd (mab Llywelyn a Thangwystl) ymlaen i reoli Gwynedd.

Siwan (c.1191–1237)
Ganed Siwan y tu allan i briodas. Ei thad oedd y Brenin John ac mae ansicrwydd ynglŷn â phwy yn union oedd ei mam, ond mae'n bur debyg mai Ffrances oedd hi. Cafodd ei magu yn Ffrainc cyn iddi briodi Llywelyn yn ifanc. Magodd deulu gyda Llywelyn a chafwyd etifedd gyda genedigaeth eu mab Dafydd. Godinebodd gyda Gwilym Brewys a threuliodd gyfnod fel carcharor i'w gŵr o ganlyniad i hynny. Bu'n ddylanwadol mewn trafodaethau gyda'i thad pan gipiodd ef diroedd Llywelyn oddi arno ym 1211.

Hubert de Burgh (c.1160–c.1243?)
Nid ydyn ni'n cwrdd â'r iarll Normanaidd Hubert de Burgh ond clywn amdano yn Act I a III. Mae'r hyn a ddywedir amdano yn y ddrama gan Siwan am ei ymgyrchoedd yn adlewyrchu digwyddiadau hanesyddol. Mae'n bosibl y byddai wedi ystyried penderfyniad Llywelyn i ddienyddio Gwilym Brewys yn beth da iddo ef ei hun oherwydd ei fod yn dymuno cael mwy o dir a dylanwad. Roedd yn agos iawn at y Brenin John ac fe dyfodd ei ddylanwad yn sylweddol yn y llys brenhinol. Fel pob iarll yn y cyfnod roedd de Burgh mewn cystadleuaeth gyson â barwniaid a ieirll eraill am ffafr frenhinol, am ddylanwad ac am dir. Un oedd yn fygythiad amlwg iddo oedd Pedr, esgob Caer-Wynt, ac mae cynllun Siwan i geisio lleihau dylanwad Hubert yn dibynnu ar Bedr i sefyll yn ei erbyn.

Priodas a bywyd yng nghyfnod y ddrama
Yn oes Siwan a Llywelyn gallai pobl briodi'n bedair ar ddeg oed, ac felly roedd hi'n bosibl beichiogi a chael plant bryd hynny. Cytundeb gwleidyddol a chyfreithiol oedd priodas i uchelwyr yng nghyfnod y ddrama ac roedd cariad a rhamant yn ffactor llawer llai pwysig. Mae priodas tad Gwilym gyda merch Siwan a Llywelyn, Gwladys Ddu, a hithau'n faban yn enghraifft o hynny. Ni fyddai'r gŵr a'r wraig yn byw gyda'i gilydd nes ei bod hi'n bedair ar ddeg oed.

Buasai'r rhan fwyaf o bobl gyffredin yn marw'n fuan wedi iddynt gyrraedd 35 oed yng nghyfnod y ddrama. Mae Siwan yn 35 oed yn y ddrama a phan ddywed hi wrth Llywelyn yn Act III na fydd hi fyw lawer yn hirach, gwelwn ei bod yn deall pa mor fyr oedd bywyd pobl yn ei chyfnod. Deallwn fod Llywelyn yn ddyn cymharol hen yn y ddrama – 55 oed – oherwydd ei fod yn uchelwr efallai, a'i fod wedi cael iechyd a bwyd gwell yn ystod ei fywyd.

3. Cyfeiriadaeth yn y ddrama

Trystan ac Esyllt
Stori garu yw *Trystan ac Esyllt* – chwedl sy'n perthyn i'r gwledydd Celtaidd. Tywysoges ifanc a hardd yn Iwerddon yw Esyllt, ac mae Trystan yn un o farchogion Arthur sydd yn brwydro yn erbyn ei hewythr. Wedi i Trystan gael ei glwyfo mewn brwydr, mae Esyllt yn ei iacháu o'i glwyfau. Mae Trystan yn ffoi adref i Gernyw wedi iddo wella.

Yn ôl yng Nghernyw mae'r Brenin Marc wedi clywed am harddwch Esyllt ac yn dymuno ei phriodi. Mae'n galw ar ei nai, Trystan, i fynd draw i Iwerddon a dychwelyd gydag Esyllt i Gernyw er mwyn iddynt allu priodi.

Cyn i Esyllt adael Iwerddon gyda Trystan mae ei mam yn paratoi diod hud iddi ei yfed a fydd yn ei galluogi hi i syrthio mewn cariad â Marc pan fydd hi'n cwrdd ag ef yng Nghernyw – gan ei fod dipyn yn hŷn nag Esyllt. Yn ddamweiniol, mae Esyllt a Trystan yn yfed y ddiod hud ar y cwch cyn cyrraedd Cernyw ac mae'r ddau'n syrthio dros eu pennau a'u clustiau mewn cariad â'i gilydd.

Pan ddaw Esyllt i Gernyw mae hi'n priodi Marc, ond oherwydd effaith y ddiod hud mae hi'n godinebu gyda Trystan, a daw Marc i wybod am hyn. Tra bo Trystan yn canu'r delyn i Esyllt daw Marc o hyd iddynt ac mae'n trywanu Trystan yn ei gefn â chyllell. Wrth i Drystan farw mae Esyllt yn mynnu ei fod yn ei chofleidio hi gyda digon o nerth i'w gwasgu hyd nes iddi hithau farw hefyd yn ei freichiau.

Marie de France – y darnau sy'n cael eu canu gan Alis a Siwan yn y ddrama

Ffrangeg	Cyfieithiad bras
Le Roi Marc était corrocié Vers Tristram, son neveu, irié De sa terre le congedia Pour la reine qu'il aima.	Roedd y Brenin Marc yn flin/grac, Yn flin/grac gyda'i nai, Trystan, Fe'i alltudiodd o'i wlad Am ei fod yn caru'r frenhines (Esyllt).
En sa contree en est allé, En sud Galles oû il fut né.	Aeth (Trystan) yn ôl i'w wlad, I'r man lle cafodd ei eni yn Ne Cymru.

Trystan, Esyllt a Marc – Siwan, Gwilym a Llywelyn
Mae pethau sy'n gyffredin rhwng cymeriadau chwedl ramantus Trystan ac Esyllt a chymeriadau'r ddrama *Siwan*.

- Mae yma driongl cariad.
- Mae Llywelyn yn hŷn na Siwan ac mae Marc yn hŷn nag Esyllt.
- Mae Gwilym Brewys a Trystan yn farchogion ifanc, golygus a dewr.
- Mae Trystan yn cael ei wella o'i glwyfau gan Esyllt ac mae Siwan yn gwneud yr un fath i Gwilym – yn ôl y ddrama.
- Mae hanes Trystan ac Esyllt a stori Siwan a Gwilym yn dangos sut mae'r cymeriadau yn ildio i serch a'u teimladau cryf at ei gilydd.

- Mae Trystan yn cael ei ladd gan Marc ac mae Gwilym yn cael ei ddienyddio gan Llywelyn.

Calan Mai a'r fedwen
Ers talwm, roedd Calan Mai yn ddiwrnod pan gâi pobl gyffredin orffwys a mwynhau. Mae'r ŵyl yn hen iawn ac yn deillio o gyfnodau Celtaidd yn ynysoedd Prydain. Dethlir yr ŵyl ar draws Ewrop hefyd. Yn draddodiadol, diwedd y gaeaf a chychwyn cyfnod lle gellid ffermio'n haws oedd yr ŵyl yng Nghymru.

Yng nghyfnod y Celtiaid yng Nghymru a Phrydain roedd Calan Mai yn gyfle i ddathlu dyfodiad yr haf a ffrwythlondeb – ffrwythlondeb y tir, natur a phobl. Yn y ddrama fe fydd Calan Mai yn troi'n symbol o'r 'awr dyngedfennol', hynny yw, yr amser pan fydd popeth yn dod at ei gilydd – serch, cariad, cyfle, rhyddid, ac yna yn Act III, maddeuant, cyfaddawd a dealltwriaeth. Gwêl Siwan hefyd bleserau noson Calan Mai yn bell pan fydd hi yn y carchar y diwrnod canlynol.

Roedd y fedwen yn symbol o ffrwythlondeb ac fe arferai pobl ifanc ddawnsio o amgylch bedwen wrth ddathlu Calan Mai. Fe gofiwn i Llywelyn gymharu Siwan â bedwen arian yn Act III. Mae'n bosibl mai oherwydd bod Siwan, fel y fedwen, yn hardd ac yn osgeiddig y mae Llywelyn yn tynnu'r gymhariaeth.

Sant Ffransis
Yn Act I y ddrama mae Siwan yn cymharu Gwilym gyda'r 'sant newydd', sef Sant Ffransis. Yng nghyfnod y ddrama roedd y rhan fwyaf o bobl Ewrop yn aelodau o'r Eglwys Gatholig. Rhan o grefydd y Catholigion (neu'r Pabyddion) yw ceisio dilyn esiampl y seintiau – pobl a fu'n byw bywydau Cristnogol a da. Mae gwahanol seintiau yn cael eu cysylltu ag amrywiol bethau, fel gwledydd a rhinweddau arbennig.

Roedd Ffransis yn fab i fasnachwr cyfoethog iawn mewn tref o'r enw Assisi yn yr Eidal yn ystod yr Oesoedd Canol. Bu farw ychydig cyn cyfnod y ddrama ym 1226. Pan oedd Ffransis yn ifanc roedd yn fachgen gwyllt a oedd yn hoff o fyw bywyd i'r eithaf. Arferai feddwi, gorfwyta, hel merched, hela, hap-chwarae (gamblo), ymladd a brwydro fel milwr. Cafodd dröedigaeth, a deallodd fod dilyn esiampl Crist yn ffordd well o fyw. Felly cafodd wared ar ei eiddo personol a'i arian a byw bywyd syml a da. Sefydlodd urdd o fynachod a ddilynai reolau Cristnogol clir. Gwisgent wisg lwyd ac roeddent yn byw bywyd tlawd, gan wneud cymaint â phosib i wella bywyd pobl oedd yn dioddef. Yn sicr, mae tebygrwydd rhwng Ffransis a Gwilym, fel y noda Siwan yn Act I. Y gwahaniaeth yw bod Ffransis wedi cefnu ar bethau melys bywyd er mwyn byw bywyd gwell a bod Gwilym yn ymdrechu i fwynhau y pethau hyn gymaint â phosib.

Defnydd o symbolau
Yn ogystal â chyfeirio at nifer o bethau penodol er mwyn creu haenau o ystyr ac arwyddocâd yn y ddrama, mae ambell beth y gallwn eu gweld fel symbolau.

Y goron
Mae'r goron yn 'flinder' i Siwan ar ddechrau'r ddrama. Wrth ei gwisgo a gorfod llywyddu'r noson, ni chafodd fwynhau ei hun ac ymroi i'r rhamant y mae Alis mor ymwybodol ohono. Nid symbol o statws a chyfrifoldeb yn unig yw'r goron i Siwan ond rhywbeth sy'n ei chaethiwo hefyd ac yn ei rhwystro rhag gwneud yr hyn y mae hi'n ei ddymuno ei wneud. Teimla Siwan fod ganddi fwy o ryddid wedi tynnu'r goron oddi ar ei phen – dyma pryd y mae hi'n godinebu ac yn ildio i'w dyheadau am nwyd a serch.

Mae'r goron hefyd yn symbol o drefn a diogelwch. Pan osodir y goron yn ôl ar ei phen ar ddiwedd y ddrama gwelwn ei bod hi a Llywelyn wedi dod i ryw fath o gytundeb a bod Gwynedd yn debygol o gael ei hachub rhag dinistr. Byddai rhai'n dadlau hefyd bod y goron yn symbol o reolaeth Llywelyn dros ei wraig.

Y gwely

Yn draddodiadol y mae'r gwely priodasol yn lle arwyddocaol sydd wrth wraidd creu teulu a pherthynas rhwng gŵr a gwraig, ond mewn teulu brenhinol ceir yr elfen ychwanegol o greu llinach. Llygrir y gwely priodasol trwy odineb ac mae'r gwely'n troi'n symbol o fethiant y briodas. Nid yw Llywelyn a Siwan yn rhannu'r gwely am flwyddyn ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r deyrnas yn mynd i argyfwng.

Ar ddiwedd Act III ceir cytundeb rhwng Siwan a Llywelyn i rannu gwely unwaith eto. Er bod y cytundeb rhwng y ddau'n amherffaith a bod gan y ddau resymau dros beidio â dychwelyd i'r gwely gyda'i gilydd, maent yn cytuno i wneud hynny. Mae'r gwely erbyn hyn yn symbol o obaith felly – gobaith i'r ddau ohonynt yn eu perthynas ond hefyd gobaith y bydd Gwynedd yn cael ei diogelu.

4. Y ddrama

Eironi dramatig – elfen ganolog
Mae Saunders Lewis yn defnyddio eironi dramatig er mwyn rhoi mwy o arwyddocâd i ddigwyddiadau'r ddrama a'r hyn y mae'r cymeriadau yn ei ddweud. Eironi dramatig yw pan fydd cymeriad mewn drama yn dweud neu'n gwneud rhywbeth heb ddeall arwyddocâd llawn ei weithred neu ei eiriau yng nghyd-destun y stori.

Roedd Saunders Lewis yn disgwyl i'w gynulleidfa wybod cynnwys y ddrama ymlaen llaw, ac felly byddent yn deall arwyddocâd rhywbeth na fyddai'r cymeriadau ar y llwyfan yn ei ddeall. Er enghraifft, yn Act I mae Siwan yn cyfeirio at Gwilym fel 'Fy llanc tragwyddol i'. Mae eironi dramatig yma oherwydd ein bod ni fel cynulleidfa yn gwybod y bydd Gwilym yn cael ei ddienyddio yn ystod y ddrama ac yn marw yn llanc, neu'n ddyn ifanc. Bydd Gwilym yn ifanc yn dragwyddol am na fydd yn cael byw i fod yn hen. Nid yw Siwan na Gwilym yn gwybod hyn, ac felly mae eironi yn yr hyn sy'n cael ei ddweud ganddi.

4.1 Act I – crynodeb
Yn yr act gyntaf gwelir nifer o ddatblygiadau penodol. Gellid ystyried bod yr act wedi'i rhannu'n dair rhan:

1) Sgwrs gydag Alis:
Cychwynnir yr act trwy gyflwyno Siwan a'i morwyn, Alis, wedi iddynt fod mewn gwledd a dawns i ddathlu dyweddïad mab Siwan, sef Dafydd, gydag Isabella, merch Gwilym Brewys.

2) Sgwrs gyda Gwilym:
Pan adawa Alis, daw Gwilym i'r ystafell fel y trefnwyd, er mwyn i'w perthynas odinebus ddatblygu.

3) Sgwrs gyda Llywelyn:
Ceir diweddglo llawn gwrthdaro chwyrn pan ddychwela Llywelyn yn annisgwyl i ddarganfod ei wraig ym mreichiau ei chariad.

Siwan ac Alis
Gwelwn yn glir beth yw'r sefyllfa ar ddechrau'r ddrama wrth i ni ymuno â Siwan ac Alis yn y siambr frenhinol. Defnyddir cyfuniad o gyfarwyddiadau llwyfan a deialog rhwng y ddwy i ddangos hyn. Cafwyd dathliad er mwyn cadarnhau dyweddïad mab Llywelyn a Siwan â merch Gwilym Brewys, Isabella. Bu dawnsio gosgeiddig yn y dull Ffrengig yn y dathliad, ond oherwydd bod Llywelyn oddi cartref gyda Hubert de Burgh bu'n rhaid i Siwan arwain digwyddiadau'r noson.

Cyfareddwyd Alis gan ramant y noson – y dawnsio gosgeiddig a'r canu Ffrengig a gafwyd yn y wledd i ddathlu'r dyweddïad. Mae Siwan, ar y llaw arall, yn llai brwdfrydig, ac ni ddawnsiodd hi yn ystod y noson. Yn absenoldeb ei gŵr, ei gwaith hi oedd croesawu'r gwesteion a bod yn awdurdod ar y cyfan. Nid hwyl oedd y noson i Siwan ond cyfrifoldeb, ac oherwydd hynny mae hi'n awyddus i ddiosg ei gwisg ffurfiol a'i choron. Clywn ddwywaith ganddi am bwysau'r goron ar ei phen a theimlwn mai baich iddi yw bod yn dywysoges heno.

SIWAN: A'r goron drom ar fy mhen?

A'r wisg arian fawr fel pabell o'm cwmpas?
Hyd yn oed i ddawnsio Ffrainc rhaid wrth
ystwythach na honna.
Llywyddu o'r gadair oedd fy ngwaith i heno.

(tud.35)

Dechreua Alis ganu cân Marie de France am garwriaeth Trystan ac Esyllt. Fel cynulleidfa, deallwn arwyddocâd y gân a pham ei bod yn anghyfforddus i Siwan ei chlywed o ystyried ei sefyllfa bersonol. Wedi i Siwan fynnu bod Alis yn rhoi taw ar y canu ceir trafodaeth fer rhwng y ddwy sy'n amlygu'r syniad fod y beirdd Cymraeg yn rhy ffurfiol o'u cymharu â Marie de France a'i bod yn anodd i bobl gyffredin agosáu atynt. Pan ddywed Siwan na fydd y sefyllfa'n gwella hyd nes y gwelir tafarn yng Nghymru, deallwn ei bod hi'n awgrymu bod y Cymry yn gul ac yn sych, yn wahanol i'r Ffrancwyr. Tanlinella hyn y gwahaniaeth rhwng cefndir a diwylliant Siwan a'r Cymry o'i chwmpas. Mae'r syniad ei bod hi'n ysytyried ei hun yn wahanol i'r Cymry, a'i bod hi ar wahân, yn thema sydd yn codi fwy nag unwaith yn y ddrama.

Wrth i Alis barhau â'i chanu mae ei meistres yn anesmwytho eto. Mae hi'n tynnu cymhariaeth rhwng Trystan a Gwilym a chaiff ei tharo gan Siwan, nes i'w gwefus waedu. Dywed Alis nad yw hi'n deall pam y cafodd ei tharo, ond mae rhai beirniaid yn dadlau ei bod hi'n gwbl ymwybodol o'r hyn y mae hi'n ei wneud a'r effaith y bydd yn ei gael ar Siwan.

Modrwy Siwan sy'n anafu Alis, ac os cymerwn ni mai ei modrwy briodas dynnodd waed yna mae arwyddocâd pellach o bosib. Mae'n bosib mai tanlinellu'r ffaith ei bod hi'n wraig briod y mae Siwan a'i bod hi'n anfodlon bod Alis yn awgrymu ei bod yn anffyddlon.

Mae'r sgwrs yn troi at y ffaith ei bod hi'n noson Galan Mai. Ailgydia Alis yn y rhamant wrth sôn am fechgyn a merched yn mwynhau'r ŵyl, swyn y noson a'r serch rhwng cariadon. Gwelir y gwrthgyferbyniad rhwng Siwan a'i morwyn yn glir. I Alis mae mwynhau yn ôl ewyllys personol, a bod yn rhydd i garu unrhyw un, yn rhan naturiol o fywyd. Er ei bod hi'n llawer tlotach na Siwan, mae ganddi ryddid i ddewis partner. Dyma'r gwahaniaeth amlwg a sylfaenol rhwng y ddwy. Bwriad Saunders Lewis yw dangos i ni fod Alis yn rhydd, ond bod y cyfrifoldeb sy'n dod gyda statws Siwan yn ei chaethiwo a'i gorfodi i ymddwyn mewn ffyrdd penodol. Mae hyn yn rhan o drasiedi sefyllfa Siwan. Caiff Alis ymateb chwyrn i'w chwestiwn diniwed:

ALIS: 'Fuoch chi ddim erioed dan y fedwen?
SIWAN: (*yn sydyn a chwerw*)
Merch i frenin oeddwn i. Yn bymtheg oed
Mam i dywysog a llysgennad Aberffraw.
Rhoddais fy nghroth i wleidyddiaeth fel pob
merch brenin.

(tud.37)

Mae Alis yn synhwyro nad yw ei meistres mewn hwyliau da ac mae hi'n troi'n ôl i sôn am hyfrydwch y noson ac yn rhamantu gan ddweud y byddai hi'n rhoi'r gorau i fod yn frenhines i gael mwynhau noson o gariad rhydd ar 'noswyl Galan Mai fel hon.' (Alis, Act I, ll.136). Mae **eironi dramatig** yn ei geiriau gan mai dyna'n union y mae Siwan yn bwriadu ei wneud y noson honno – cael gwared o'i chyfrifoldebau brenhinol er mwyn cael mwynhau ei hun gyda Gwilym. Yn ddiamynedd, mae Siwan yn gorchymyn bod Alis yn gadael yr ystafell.

Siwan a Gwilym

Mae clywed am ramant Calan Mai gan Alis wedi cythruddo Siwan, er y gallwn gredu mai'r rheswm am anfon Alis allan yw ei bod hi wedi gwneud y sylw: 'Mi daflwn i faich brenhines / Ar noswyl Glanmai fel hon.' (Alis, Act I). Mae'r sylw'n eironig i ni fel cynulleidfa ond efallai ei fod yn rhy agos at yr hyn sydd yng nghefn meddwl Siwan wrth iddi ystyried ei chynlluniau ar gyfer gweddill y noson. Yn eironig eto, clywn Siwan yn canu Marie de France a chofiwn iddi roi bonclust i Alis am wneud hyn yn gynharach. Mae'n amlwg felly beth sydd ar ei meddwl.

Wedi i Siwan sicrhau na welodd neb Gwilym yn dod i'r ystafell, clywn sgwrs sydd, ar y cyfan, yn cadw draw oddi wrth ramant a serch. Dealla Siwan beth yw perygl eu perthynas a chawn amlinelliad ganddi o'r hyn fyddai'n bosib ei golli petai'r ddau yn cael eu dal. Cawn lu o ffeithiau sy'n cyfeirio at ei hanes hi a Gwilym gyda'i gilydd cyn y noson hon, ei chefndir a'i chysylltiadau â'r brenin a theulu ehangach Gwilym, a'r hyn a gyflawnodd hi fel cymar i Llywelyn yn creu llinach deuluol yng Ngwynedd.

Gwelwn yma dyndra ym meddwl Siwan rhwng nifer o bethau yn ei bywyd. Mae hi am gadw'r hyn y mae hi wedi ei gyflawni gyda Llywelyn:

SIWAN: Mi hoffwn ddal mab fy mab, etifedd
Llywelyn,
Uwchben y bedyddfaen yn goron ar waith
fy oes.

(tud.39)

Mae hi'n atgoffa Gwilym ei bod wedi ymdrechu, er mwyn:

SIWAN: ... sefydlu llinach Aberffraw o dad i fab,
Fel ach Iwl Cesar, yn olyniaeth frenhinol...

(tud.39)

Mae Siwan yn gwybod bod bygythiadau posib i'w chyflawniadau oherwydd bod gan Llywelyn fab arall o'i berthynas gynharach â'r Gymraes, Tangwystl. Fodd bynnag, mae hi'n cydnabod ei bod yn dyheu am brofi serch gyda Gwilym. Mae'r dyhead hwnnw'n tynnu'n groes i sefydlogrwydd a diogelwch ei sefyllfa bersonol. Ymdrechodd i gadw rheolaeth ar ei greddfau naturiol:

SIWAN: ... Cefais gyda'm gwaed
Egni nwydwyllt fy nhad. Rhag chwalu 'mywyd
Mi ymdeflais i waith gŵr ac i waith fy ngŵr.

(tud.40)

Dengys hi'n glir ei bod yn deall peryglon a ffolineb cymysgu serch â gwleidyddiaeth a gosod popeth yn y fantol.

SIWAN: 'Does dim lle i anhrefn serch mewn llywodraeth teulu a
gwlad.
Unwaith erioed y gedais i i'm calon ymyrraeth â pholisi.
GWILYM: A pha bryd y bu hynny wraig bwyllog?
SIWAN: Pan drefnais i briodas
Etifedd Aberffraw a merch Gwilym Brewys
wyllt.

(tud.41)

Mae hi'n dangos ei bod hi wedi ceisio cadw rheolaeth ar ei greddfau ond mae hi hefyd yn

cydnabod na all droi ei chefn ar ei hangen dwys i brofi pleser serch gyda Gwilym. Mae hyn yn codi ofn arni:

GWILYM: Oes arnat ti ofn y gwir?
SIWAN: Nid ofn y gwir, ond ofni, hwyrach, ei glywed;
Gellir stablu peth yn y meddwl sy'n wyllt yn
Y glust.
GWILYM: 'Dwyf i ddim yn ddychryn iti, Siwan?
SIWAN: Nag wyt ddim oll; ond mae ynof i fy hun
Bethau'r wyt ti'n eu deffro sy'n ddychryn imi.
GWILYM: Y pethau sy'n gwneud bywyd yn bêr?
SIWAN: Y pethau sy'n gwneud byw yn chwerw,
Pethau a fu'n fud ac a guddiais i o'm golwg fy hun,
Am nad oedd gennyf gyfran ynddynt, am fy mod i yma'n
Alltud, a'm hunig werth yw fy ngwerth i gynnydd gwlad.

(tud.42)

Gwelwn drasiedi Siwan yn y ddwy linell olaf, a gallwn gydymdeimlo mwy â'i sefyllfa a theimlo drosti.

Yn raddol daw mwy o ramant i sgwrs y ddau a chlywn i Gwilym weld Siwan am y tro cyntaf pan oedd yn fachgen ifanc ym mhriodas ei dad â Gwladus Ddu, un o ferched Llywelyn a Siwan, yn Henffordd. Deallwn fod eu carwriaeth wedi cychwyn pan glwyfwyd Gwilym a'i gymryd yn wystl i lys Llywelyn. Nodwn sylw eironig Gwilym am ddawn Llywelyn i ddychwelyd ar amserau anghyfleus a tharfu ar bleserau'r cwpl godinebus. Mae'r tebygrwydd rhwng y disgrifiad o'r tro cyntaf iddynt gwrdd a chwedl Trystan ac Esyllt yn dod i'r amlwg yma.

Cymherir Gwilym â Sant Ffransis oherwydd ei ymddygiad bywiog, diofal a beiddgar. Gwêl Siwan hyn yn ddeniadol ac yn beryglus ar yr un pryd. Heblaw am eiliadau o banig ym meddwl Siwan wrth iddi ddeall bod Hubert de Burgh yn gwybod bod Gwilym gyda hi, a'i bod felly yn bosib i Llywelyn ddod i wybod am eu twyll, ceir rhamant a mwynhad rhwng y ddau.

Clywn y gair 'heno' un ar ddeg gwaith gan naill ai Siwan neu Gwilym, sy'n tanlinellu pwysigrwydd yr hyn sy'n debygol o ddigwydd y noson honno, a beth fyddai canlyniadau cael eu darganfod. Mae 'heno' yn binacl yr aros am gael bod gyda'i gilydd a phrofi mwynhad. Serch hynny, mae'r noson yn gymysgedd o'r melys a'r chwerw. Does dim sôn ychwaith am obaith o 'heno' arall, a dim llawer i awgrymu mai perthynas a fydd yn parhau yw hon. Mae'r olygfa'n llawn eironi dramatig a bron yn anghyfforddus i ni ei gwylio.

Wrth i'r ddau ymgolli yn hyfrydwch 'heno' gyda'i gilydd mae eu synhwyrau'n dod yn fyw. Mae hi'n Galan Mai ac mae 'Popeth yn dda' fel y dywed y gwylwyr, a geiriau Siwan yw: ''Rwy'n rhoi i'm pum synnwyr ryddid i fod wrth eu bodd.'

Wrth i'r cwpl wylio'r sêr daw ambell beth i'w clyw sydd yn peri dryswch iddynt, ond rydyn ni, y gynulleidfa, yn sylweddoli bod y synau hyn yn arwydd bod Llywelyn yn agosáu. Trwy gydol y rhan hon o'r olygfa cynyddir y tyndra a'r disgwyl ynom yn gelfydd gan y dramodydd. Gwna hyn trwy osod cyfeiriadau yma a thraw yr ydym ni'n deall

eu harwyddocâd, ac yn y pen draw, daw panig i'r llwyfan hefyd wrth i'r cymeriadau sylweddoli'r hyn sy'n digwydd.

Pan sylweddola'r ddau nad oes dim y gellir ei wneud, ceir ymateb gwahanol gan y ddau. Mae Gwilym yn derbyn y sefyllfa ac yn derbyn ei ffawd heb ffwdan. Mae Siwan fel petai hi angen parhau â'r profiad hyd y funud olaf un:

GWILYM: 'Does dim y gellir ei wneud. Rhaid croesawu'r
Tywysog i'w stafell,
A barnu wrth y twrw 'fydd e' ddim yn hir.
(*Clywir tramp milwyr yn agos a sŵn tariannau a ffyn*)
SIWAN: Tyr'd ar y gwely i'm breichiau. 'Rwy'n
rhoi fy hun iti, f'anwylyd.

(tud.50)

Llywelyn yn dod i'r ystafell – uchafbwynt
Dyma binacl yr act gyfan ac mae'r gwrthdaro chwyrn ac amlwg rhwng y cymeriadau yn hoelio ein sylw. Cychwynna'r rhan hon gyda deialog rhwng Gwilym a Llywelyn; ni chlywn unrhyw beth gan Siwan am y tro.

Mae Gwilym a Llywelyn yn gweld y sefyllfa mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd. Does dim angen bod yn eithafol wrth ymdrin â'r sefyllfa ym marn Gwilym. Talu iawn am sarhad ac 'anghyfleuster' sydd angen ei wneud, ac mae'n synnu at ymateb Llywelyn:

GWILYM: Deliaist fi ar dy wely. O'r gorau. Mi dala' i
iawn dy sarhad,
Mi dalaf ddilysrwydd dy wraig.

(tud.51)

Caiff Gwilym ei syfrdanu wrth ddeall bod Llywelyn yn bwriadu ei ddienyddio ac mae'n rhybuddio Llywelyn y gallai beryglu dyfodol Gwynedd petai'n gweithredu fel hyn. Wedi bygythiad pellach gan Llywelyn, sylweddola Gwilym nad balchder sy'n ei boeni. Cafodd Llywelyn ei frifo'n emosiynol oherwydd ei fod, yn wahanol i lawer o arglwyddi a barwniaid y cyfnod, yn caru ei wraig. Mae Gwilym ar fin datgelu hyn i Siwan, ond mae Llywelyn yn gorchymyn i'r milwyr ei dawelu. Yn wahanol i Siwan, mae Gwilym yn gweld bod Llywelyn yn ei charu. Mae'r diffyg cyfathrebu a deall a welwn yma yn thema ganolog i'r ddrama gyfan. Cawn esboniad llawnach gan Llywelyn yn Act III pan fydd yn cofio'r noson hon a chyffesu ei deimladau cariadus wrth Siwan.

Yna mae Siwan yn siarad. Gwelir yn amlwg gynddaredd Llywelyn am y sefyllfa hyd ddiwedd yr act, wrth i Siwan geisio gwneud iddo ymbwyllo rhag rhoi Gwynedd ac etifeddiaeth Dafydd eu mab yn y fantol trwy ladd Gwilym. Ni cheir ymddiheuriad ganddi nac ychwaith lawer o arwydd ei bod hi'n deall natur digofaint ei gŵr. Iddi hi byddai dienyddio Gwilym yn ffwdan moesol diangen wrth ystyried y perygl i Wynedd.

SIWAN: Mi fynnwn iti ymbwyllo. 'Wela i ddim
Fod rhoi cyrn am dy ben yn rheswm dros dynnu
dy ddannedd.
LLYWELYN: Nid digon gennyt odineb. Collaist hefyd
gywilydd.
SIWAN: Ffrances wyf i a merch Brenin.
Mae'r angerdd moesol Cymreig yn ddichwaeth
gen' i.

Dos i bregethu i Dangwystl yn Nolwyddelan.

(tud.53)

Tynna Siwan sylw at y ffaith ei bod hi'n wahanol i'r Cymry yma, fel y gwnaeth o'r blaen yn yr act hon. Mae awgrym hefyd ei bod hi'n teimlo'i bod hi'n well na'r Cymry yma hefyd o bosib. Sylweddola Llywelyn fod ei wraig yn ei weld fel gwleidydd, nid fel gŵr y mae hi'n ei garu, ac felly aiff ymhellach a dweud y byddai Gwilym yn cael dienyddiad dihiryn yn hytrach na dienyddiad uchelwr:

LLYWELYN: I gythraul â'r deyrnas a thithau. Mi gollais fy ngwraig;
Cei dithau golli dy gariad.
SIWAN: 'Feiddi di mo'i ladd ef.
LLYWELYN: (*wrth y milwyr*):
Cymerwch ef i'r gell.
SIWAN: Fe ddaw fy mrawd y Brenin o Ffrainc,
'Feiddi di ddim.
LLYWELYN: Caiff grogi fel lleidr pen ffordd.

(tud.54)

Mae Llywelyn yn taro Siwan wrth iddi geisio cofleidio Gwilym, a deallwn mai gweithred dyn sydd wedi cyrraedd pen ei dennyn yw hon. Gwelir Llywelyn y dyn yma yn hytrach na'r gwleidydd – nid ei ben sy'n rheoli ond ei galon:

LLYWELYN: 'Feddyliais i 'rioed dy daro di...

(tud.54)

Erbyn diwedd yr act mae'r drefn naturiol ym mywydau'r cymeriadau wedi ei chwalu. Gyda hyn rhoddir Gwynedd mewn perygl. Drwy beidio â chyflawni ei chyfrifolebau fel tywysoges mae Siwan wedi achosi ansicrwydd, annhrefn a pherygl.

Yn ystod Act I, cawn ein cyflwyno i'r cymeriadau ac yn arbennig i sefyllfa Siwan. Cynyddir y tyndra'n raddol hyd at uchafbwynt gafaelgar a chyffrous.

4.2 Act II – crynodeb

Yn y bôn, sgwrs rhwng Siwan ac Alis sydd yn yr act hon, yn y tŵr lle bydd Siwan yn cael ei charcharu. Mae'r act yn llawn tyndra a chynnwrf wrth iddi symud at uchafbwynt gyda dienyddiad Gwilym.

Gellir gweld y sgwrs yn yr act yn datblygu ac yn symud trwy'r camau canlynol:

- Cyflwr emosiynol Siwan wrth iddi ddeall y sefyllfa.
- Sôn am y grocbren yn cael ei hadeiladu a llewyg Siwan.
- Amlinelliad o sut penderfynwyd crogi gan y Cyngor.
- Disgrifio dienyddiad Gwilym ac uchafbwynt yr act pan glywn Gwilym yn gweiddi enw Siwan.
- Tristwch y sefyllfa wedi'r crogi.
- Ymddangosiad disymwth Llywelyn yn y tŵr sydd yn weithred sydyn a phwerus i gloi'r act.

Er mai sgwrs rhwng dau gymeriad yw'r act yn ei hanfod, cawn ein tywys trwy ddigwyddiadau trawiadol ar daith sydd yn drwm dan deimladau dwys. Yn null y theatr glasurol cawn ddisgrifiad o ddigwyddiadau trist a threisgar sy'n digwydd oddi ar y llwyfan gan un o'r cymeriadau. Ni ddangosir trais ar y llwyfan yn y theatr glasurol, a dilyn y rheol hon y mae Saunders Lewis wrth gyflwyno'r dienyddiad i ni drwy eiriau a disgrifiad Alis o'r digwyddiadau ar lawnt y llys. Ychwanegir at dyndra yr act trwy gyfrwng yr effeithiau sain a ddaw i'r llwyfan o'r 'tu allan'.

Cyflwr Siwan

Mae'r act yn agor gyda Siwan ar ei gwely yn y carchar pan ddaw Alis i'r llofft. Mae Siwan wedi ei rhwymo mewn cadwyni gyda hual am ei ffêr. Mae awyrgylch ddigalon a gofidus yn y tŵr a sylwer mai un o bryderon Siwan yn awr yw bod y '… gadwyn yn drom' (Siwan, Act II) – nid y goron fel ar ddechrau Act I.

Ym marn Siwan, mae'r gadwyn yn symbol o ddicter a chasineb Llywelyn, ond awgryma Alis fod siom Llywelyn yn fwy na'i gasineb tuag ati. Serch hynny, teimla Siwan sarhad wrth wisgo'r gadwyn. Yn Act I, teimla Siwan ei bod hi wedi'i rhwymo gan gyfrifoldebau bod yn dywysoges ac yn wraig i hen ŵr. Nawr mae hi wedi'i rhwymo'n llythrennol gan gadwyn a roddwyd amdani gan ei gŵr.

Wrth i Alis geisio cysuro Siwan gwelwn fod ei meistres yn ddrwgdybus o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd iddi. Clywn hi ddwywaith yn holi Alis a fydd ei bywyd hi'n newid ar ôl heddiw:

ALIS: D'wedodd y Tywysog na chedwir y gadwyn
ond heddiw.
SIWAN: Pam heddiw ac nid ar ôl heddiw?
'All heddiw newid fy myd?

(tud.55)

Ac eto:

SIWAN: … 'Oes rhyw newid i fod ar fy myd?

(tud.56)

Mae'r eironi dramatig sydd yn y geiriau hyn yn dwysáu'r ymdeimlad sydd ynom fel cynulleidfa bod rhywbeth ofnadwy ar fin digwydd.

Bu Siwan yn ei chell ers dau ddiwrnod ac mae swyn Calan Mai a'i hamser gyda Gwilym yn teimlo'n bell i ffwrdd. Nawr gwelwn unigedd dwys a phryder Siwan:

SIWAN: … bûm yma bron
drigain awr.
Mi glywais athro unwaith, disgybl i Awstin,
yn dweud
Nad oes amser yn y tragwyddoldeb. Gobeithio
fod hynny'n iawn.
Mae syllu i lygaid amser yn gychwyn gwallgofrwydd.
Mewn amser mae amser i bopeth; 'does dim
diogelwch,
Ond bygwth fel y sŵn morthwylio 'na a
gychwynnodd cyn y wawr.

(tud.57)

Roedd amser ar feddwl Siwan ar ddechrau Act I hefyd. Bryd hynny, roedd hi'n teimlo tyndra oherwydd ei bod hi'n disgwyl i amser fynd heibio er mwyn iddi allu gweld ei chariad. Roedd ynddi gymysgedd o aniddigrwydd a dyhead am gael gweld Gwilym ar yr un pryd. Yma, bygythiad yw amser, nid addewid. Cofiwn hefyd fod teimlo'n unig yn brofiad cyfarwydd i Siwan.

Y grocbren

Yn y diwedd, caiff Siwan y gwirionedd am y morthwylio sy'n digwydd ar y lawnt. Mae anfodlonrwydd ac ofn Alis wrth esbonio'n amlwg – ceisia osgoi dweud wrth ei meistres fod crocbren yn cael ei hadeiladu. Pan ddealla Siwan mai ar gyfer Gwilym y mae'n cael ei hadeiladu ac nid ar ei chyfer hi ei hun, mae'n llewygu.

Pan ddaw Siwan ati ei hun, ei phryder yw iddi fod yn ddiymadferth yn ystod dienyddiad Gwilym. Gwelir rhyw gadernid ynddi lle y bu digalondid. Teimla Siwan fod cyfrifoldeb arni i fod yn hollol ymwybodol o'r crogi a chyd-fyw'r cwbl gyda Gwilym o'i chell – nid dianc trwy fod yn wan ac mewn llewyg: '...'Fynnwn i ddim dianc fel yna.'

Dedfrydu Gwilym

Esbonia Alis sut y penderfynodd y Cyngor mai cael ei grogi fel lleidr cyffredin a fyddai Gwilym yn hytrach na chael dienyddiad uchelwr. Deallwn i Llywelyn fod yn afresymol a mynnu bod Gwilym yn cael ei grogi, yn groes i farn y Cyngor a'r perygl y byddai'r weithred yn arwain at ryfel. Clywn hefyd fod Alis wedi clywed Gwilym yn ei gell yn canu Marie de France ac fe synhwyrwn fod hyn yn gysur i Siwan.

Y crogi – uchafbwynt

Yn raddol mae'r act yn symud at uchafbwynt wrth i'r tyndra gael ei adeiladu'n ofalus. Cawn ddisgrifiad graffig ac amhleserus o beth yw crogi go iawn gan Alis, ac er bod Siwan wedi dedfrydu dynion i'w crogi, ni welodd hi erioed ddyn yn marw drwy grogi ar raff. Gwelir cyferbyniad amlwg rhwng Siwan ac Alis yma. Mae clywed disgrifiad Alis yn codi ofn ar Siwan dros Gwilym ac yn ein gwneud ni fel cynulleidfa yn ymwybodol o ba mor ddi-urddas a ffiaidd fydd ei farwolaeth. Aiff Alis ymlaen i esbonio ei bod hi'n bosib cael marwolaeth sydyn os yw'r cyhuddiedig yn neidio oddi ar yr ysgol a bod pwysau ei gorff yn peri iddo dorri ei wddf ar unwaith. Gobeithia Siwan y caiff Gwilym wneud hyn.

Mae Siwan yn gorfodi Alis i fynd at ffenestr yr ystafell er mwyn disgrifio'r hyn sydd yn digwydd y tu allan. Disgrifir dyn hyderus, ifanc a hoffus gan Alis wrth iddi weld Gwilym yn dod i'r golwg islaw'r ystafell. Pan ddywed Alis na fyddai Siwan yn gallu dioddef clywed manylion y crogi gwelwn eto gadernid ei phersonoliaeth:

> SIWAN: Mi dd'wedais fod arna' i g'wilydd o'm gwendid
> gynnau.
> Syrthia' i ddim mewn llewyg na gweiddi na gollwng deigryn.
> 'Fydd y cwbl ond ychydig funudau. Mi af
> drwy hyn gydag ef.
>
> (tud.63)

Mae ei dymuniad i brofi rhywbeth y tu hwnt i'w bywyd fel tywysoges gyfrifol yn dal i fod ynddi. Mae hi fel petai hi'n dymuno bod yn gariad i Gwilym a bod gydag ef mewn ysbryd tan y diwedd, sy'n dangos ei ffyddlondeb a'i theyrngarwch iddo.

Gwelwn fod y ddwy yn drwm dan deimlad a thyndra emosiynol. Ffieiddia Alis wrth wylio'r dyrfa'n eiddgar i gael gweld y crogi a gofynna Siwan i Sant Ffransis weddïo dros Gwilym

a bod ei ddwylo'n rhydd er mwyn iddo fedru neidio. Fe gofiwn yn Act I i Siwan ddweud y byddai hi'n gweddïo ar Sant Ffransis i amddiffyn Gwilym rhag niwed. Bryd hynny, cymeriad a gysylltwyd â beiddgarwch a rhamant oedd Sant Ffransis; yma mae Siwan yn dymuno cael ei gymorth mewn sefyllfa frawychus ac amhleserus.

Disgrifir Gwilym gan Alis yn symud gydag urddas tuag at y grocbren drwy'r dorf swnllyd. Ar ôl i Siwan ddeall nad ydy 'o' – sef Llywelyn – yn bresennol, symuda Gwilym yn hunanfeddiannol at ei ddienyddiad. Caiff Siwan ryddhad mawr o ddeall bod dwylo Gwilym yn rhydd a'i fod felly'n bosib iddo neidio â'r rhaff am ei wddf a marw'n sydyn. Clywn hefyd fod Gwilym yn cadw'i urddas:

ALIS: O'u gweld nhw fe dd'wedech fod y Penteulu'n
mynd i'w grogi
A Gwilym Brewys lartsh yn ei dywys i'r grog.

(tud.66)

Trwy gydol disgrifiad Alis fe glywn effeithiau sain sy'n awgrymu ymateb y dorf i'r digwyddiad, ynghyd â lleisiau'r côr yn canu a sŵn y drymiau'n seinio. Mewn gwrthgyferbyniad â'r cyffro hwn cawn weddïau tawel, pryderus Siwan, sy'n dwysáu tyndra'r olygfa ymhellach. Caiff awyrgylch a thyndra ei greu'n ofalus yma, hyd nes y deallwn fod Gwilym wedi cyrraedd yr Esgob, wedi dweud ei benyd ac yn wynebu'r rhaff. Yma, dim ond sain isel drymiau a glywir fel curiad calon isel wrth i ni glywed bod Gwilym yn dringo'r ysgol yn ddiffwdan. Wedi'r holl sŵn a fu eiliadau ynghynt ceir tawelwch wrth i Siwan ac Alis ddisgwyl. Yna wrth i Alis ddweud fod Gwilym yn sefyll ar ben yr ysgol ac wrth i lais isel Siwan orffen ei gweddi drosto, ceir eiliad o dawelwch llawn tyndra, cyn cyrraedd yr uchafbwynt gyda gwaedd Gwilym: 'Siwan!'.

Wedi eiliad o dawelwch yn dilyn y dienyddiad cawn gwestiwn digalon Siwan:

SIWAN: Ai dyna'r diwedd?

(tud.67)

Tristwch y sefyllfa ym meddwl Alis

Er iddi gael rhyddhad o weld Gwilym yn neidio a chael diwedd sydyn i'w fywyd, mae Alis yn crybwyll tristwch y sefyllfa a diffyg cydymdeimlad y dorf oedd yn gwylio. O gofio mai merch gyffredin ydy hi mae ei sylwadau'n rhai craff a doeth:

ALIS: … Mae'r siou ar ben a bu'n siom. Be' wyddan',
be' falian' nhw
Am weddw yn Aber-honddu, neu am wraig
o garcharor yma
Yn gwegian dan ei hing? Gwahanglwyf yw
poen,
Ffau o dywyllwch yng ngolau dydd a dirgelwch;
'Does neb erioed a gydymdeimlodd â phoen.

(tud.68)

Gyda'r geiriau hyn tanlinellir sgil-effeithiau anffyddlondeb Siwan a Gwilym ar fywydau pawb a chawn eiliad i fyfyrio gyda'r cymeriadau.

Ceir newid yn awyrgylch yr olygfa wrth i sŵn offerynnau ganu ac i Alis ddweud bod y dyrfa wedi mynd i ddathlu a dawnsio. Mae rhywbeth yn anesmwyth yn y gwahaniaeth

rhwng y sŵn llawen ac ysgafn sy'n dod trwy'r ffenestr a thristwch affwysol yr ystafell.

Ymddangosiad Llywelyn
Pan ddaw Llywelyn i'r llwyfan mae'n dal i fod yn gynddeiriog, fel yn Act I. Clywn ei eiriau herfeiddiol ac ymateb Siwan sydd yr un mor gadarn ac atgas yn dod â'r act drom hon i ben.

LLYWELYN: ... Mae'r cwbl drosodd yn awr...
'Feiddiwn i ddim, ai e? 'Feiddiwn i ddim?
SIWAN: O waelod uffern fy enaid, fy melltith arnat, Llywelyn.

(tud.68)

Er mai hon yw act fyrraf y ddrama, ceir llawer o ddigwyddiadau ynddi a thyndra sydd bron yn annioddefol, hyd nes yr uchafbwynt pan glywn Gwilym yn gweiddi enw Siwan. Yr hyn sy'n bwysig i'w gofio yw mai dwy wraig yn siarad mewn ystafell yw rhan helaethaf yr act hon. Dibynna llwyddiant yr olygfa felly ar allu Saunders Lewis i drin geiriau trwy gymeriad Alis, ac i greu'r delweddau a'r teimladau ynom.

4.3 Act III – crynodeb
Mae naws ac awyrgylch yr act hon yn llai cyffrous na'r act gyntaf, lle cawsom y rhamant rhwng Siwan a Gwilym a'r cyffro wrth i Llywelyn eu darganfod. Dydy'r tyndra dwys a'r ofn yn sgil y dienyddiad yn Act II ddim yma ychwaith. Wedi dweud hyn, mae ynom deimlad o chwilfrydedd wrth geisio dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf ar ôl i'r llen godi.

Gellir gweld yr act fel dwy ddeialog – yn gyntaf rhwng Llywelyn ac Alis ac yna rhwng Llywelyn a Siwan:

Sgwrs Llywelyn ac Alis:
- Trafod hanes Siwan yn ystod ei blwyddyn yn y carchar.
- Amlinelliad o'r sefyllfa bresennol.

Sgwrs Llywelyn a Siwan:
- Trafodaeth er mwyn ceisio datrys problemau Gwynedd yn sgil crogi Gwilym, gan ddefnyddio medrau Siwan fel gwleidydd.
- Dod i ddeall perthynas Llywelyn a Siwan ac yna'r cyfaddawdu er mwyn y dyfodol.
-

Pan goda'r llen gwelwn Alis a Llywelyn ac mae hi'n Galan Mai. Mae hi'n flwyddyn union i'r diwrnod y darfganfuwyd Siwan a Gwilym yn godinebu. Yn wahanol i Act I a II, mae Llywelyn ar y llwyfan o'r funud y bydd y llen yn codi – yn hytrach na bod yn fygythiad yn y cefndir ac ym meddyliau'r bobl sydd ar y llwyfan yn siarad. Dyma'r tro cyntaf i ni ei weld mewn tymer dda ac yn cyd-dynnu ag un o'r cymeriadau eraill. Rydyn ni'n chwilfrydig i glywed beth sydd ar feddwl y cymeriad pwysig hwn na welsom ddim ond llid a chynddaredd ganddo cyn hyn. Deallwn yn fuan ei fod ar fin gweld Siwan am y tro cyntaf ers iddi gael ei charcharu flwyddyn yn ôl.

Trafodaeth am gyflwr Siwan
Clywn fod Dafydd ac Isabella wedi priodi yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Deallwn hefyd na fu Siwan yn bresennol ym mhriodas ei mab – sydd yn eironig o gofio ei geiriau yn Act I. Dywed Alis fod Siwan wedi heneiddio ers y crogi. Mae'n ddiddorol gweld bod Llywelyn yn ddigon sensitif i ddeall cyflwr ei wraig hefyd:

ALIS: F'arglwydd, 'roedd hi'n ifanc ei hysbryd cyn ei charchar.

LLYWELYN: Nid dyna dy feddwl di. Dywed dy feddwl, ferch.
ALIS: Mi dd'wedais a feiddia' i, syr.
LLYWELYN: Crogi Gwilym Brewys a'i crinodd hi,
Aeth ei nwyfiant hi gyda Gwilym i gwlwm rhaff.
Dyna dy feddwl di.
ALIS: Dyna fy 'ngofid i, syr. Chi a ofynnodd imi.

(tud.70)

Y sefyllfa bresennol yn y ddrama

Dywed Alis ei bod hi wedi colli gŵr ar ôl priodas fer iawn. Deallwn fod y cymeriadau i gyd yn dioddef oherwydd iddynt golli rhywun pwysig yn eu bywydau. Cyfeiria Llywelyn at ddewrder Alis yn dioddef ei cholled heb fod eisiau rhoi diwedd ar ei bywyd ei hun fel y byddai rhai wedi gwneud. Pan hola Alis os bydd tywysog, gan awgrymu Llywelyn, yn teimlo'n ddigon digalon i fod eisiau rhoi diwedd ar ei fywyd ei hun ar ôl colli rhywun agos, mae'r ateb gan Llywelyn yn dangos ei fod yn drwm dan deimlad. Mae ymateb Alis i sylw Llywelyn yn aeddfed a doeth:

LLYWELYN: ... Rhodd enbyd yw bywyd i bawb.
ALIS: Hyd yn oed i dywysog?
LLYWELYN: Onid dyn yw tywysog, ferch?
ALIS: 'Dd'wedwch chi hynny wrth y dywysoges, syr?
LLYWELYN: Ydy hi'n amau hynny?
ALIS: Byddai'n help iddi gael clywed.

(tud.71)

Gwelwn rôl Alis fel cynghorydd/*confidante* yma – mae'n deall y bwlch a'r diffyg cyfathrebu sydd rhwng Llywelyn a'i wraig ac yn gweld yr awydd sydd yn Llywelyn i bethau fod yn wahanol. Sylweddola fod y tywysog a'i wraig yn ei chael hi'n anodd i ddangos eu teimladau, a dywed fod yn rhaid i Llywelyn fod yn fwy agored, fel plentyn, a dangos ei deimladau er mwyn iddynt allu agosáu. Ym meddwl Llywelyn mae bod yn fwy agored yn arwydd o wendid, ond pan awgryma Alis fod yr agwedd ifanc, agored yn rhan o apêl Gwilym i Siwan, mae Llywelyn yn terfynu'r drafodaeth.

Clywn yn awr am y perygl sy'n wynebu Gwynedd yn sgîl crogi Gwilym a bod yr hyn fydd yn digwydd nesaf yn nwylo Siwan. Ei phenderfyniadau hi fydd yn effeithio ar ddyfodol y deyrnas, fel y gwnaeth ei phenderfyniad hi i odinebu gyda Gwilym yn y lle cyntaf.

Siwan yn dod i'r ystafell wely

Pan ddaw Siwan i'r llwyfan gwelwn yn syth fod y gagendor emosiynol rhwng Llywelyn a'i wraig yn dal i fod yno – mae ansicrwydd anghyfforddus rhwng y ddau gymeriad. Ceir ansicrwydd pellach pan ddywed Llywelyn wrth Siwan fod arno ei '[h]eisiau' hi. Mae'r syniad bod Llywelyn ei heisiau hi yn syndod i Siwan ar ôl blwyddyn o garchar a bywyd priodasol anodd. Nid yw'n eglur i ni fel cynulleidfa p'un ai eisiau help Siwan fel gwleidydd y mae ei gŵr neu mewn ffordd emosiynol? Wrth ystyried sgwrs Llywelyn ag Alis yn gynharach, gallai'r ddau beth fod yn bosibl.

I Siwan, y gelyn a'r un sydd yn cosbi yw Llywelyn o hyd. Yn ei meddwl hi, ceisio ychwanegu at ei chosb y mae Llywelyn wrth iddo orchymyn iddi ddod ato flwyddyn union wedi iddi gael ei dal gyda Gwilym. Eto, gwelwn arwyddocâd ychwanegol yn cael ei roi i Galan Mai yn y ddrama pan ddywed Llywelyn ei fod wedi cyfri'r diwrnodau ers y noson honno:

SIWAN: 'Rwy'n garcharor ers misoedd, arglwydd.
LLYWELYN: Blwyddyn i'r bore hwn. Mi fûm innau'n cyfri'r dyddiau.
SIWAN: 'Ydy' hi'n glamai heddiw? Mi gollais gyfri.
LLYWELYN: Mae hi'n galan mai.
SIWAN: 'Oes rhaid bod mor aflednais wrth garcharor?
LLYWELYN: Pa afledneisrwydd? Be' sy yn dy feddwl di?
SIWAN: Heddiw o bob dydd... yma i'r stafell hon,
Yn syth o'm carchar? Pam y gelwaist ti fi yma?
LLYWELYN: I barhau'r ymddiddan fu rhyngom ni yma'r llynedd.
SIWAN: (*yn gwbl dawel a hunan-feddiannol fel un a llaw haearn arni ei hun*):
Na, na, na, fyth eto. 'Fedra' i ddim siarad am Gwilym.
Yn dy drugaredd, arglwydd, gorchymyn imi ddychwelyd i'm cell.
LLYWELYN: Mae arna' i d'eisiau di, Siwan. Apêl yw hyn, nid gorchymyn.
Nid i'th boenydio chwaith y dewisais i'r bore hwn.

(tud.73)

Deallwn felly, fel Siwan, nad yw Llywelyn yn dymuno cweryla, gweiddi a chosbi rhagor. Yn wir, clywn, gyda rhywfaint o syndod, y geiriau hyn ganddo:

LLYWELYN: ... Heddwch i enaid
Gwilym...

(tud.73)

Mae'r sgwrs sydd yn dilyn yn ymddangos fel gwleidyddiaeth sych ar un olwg – dau arweinydd yn cynllunio strategaeth filwrol er mwyn gwarchod Gwynedd rhag cael ei meddiannu. Yn y bôn, rhesymegu a ffurfio cynllun sydd yma er mwyn cadw etifeddiaeth eu mab, Dafydd, yn ddiogel at y dyfodol.

Wedi dweud hynny, gallwn synhwyro natur a theimladau'r cymeriadau wrth iddynt drafod. Ar ôl i Llywelyn orchymyn i Siwan ei helpu, gwelwn ei bod yn ddigon bodlon gwneud hynny, ond nid heb atgoffa Llywelyn mai ei fai ef yw eu bod nhw yn y fath sefyllfa anodd. Mae Siwan hefyd yn goeglyd ac yn sur wrth sôn eto cymaint o 'ffrind' yw Hubert de Burgh. Fe gofiwn iddi sôn amdano fel '... sarff llawn gwenwyn...' yn Act I. Mae Siwan yn barod iawn i atgoffa Llywelyn o'i rhybudd y byddai Hubert yn debygol o feddiannu'r rhan fwyaf o dde Cymru petai Gwilym yn cael ei ddienyddio. Gwelwn eironi yma wrth i Siwan fwynhau dangos ei bod hi'n iawn i rybuddio Llywelyn flwyddyn ynghynt, a phwysleisia pa mor wirion y bu ef i beryglu Gwynedd fel y gwnaeth.

Nid yw Llywelyn, er gwaethaf pryfocio Siwan, yn dangos ei fod yn dyfaru crogi Gwilym:

LLYWELYN: Yma. yn ystafell hon, proffwydaist ti
Ganlyniad lladd Gwilym Brewys. Yn y Cyngor wedyn
Adroddais innau d'eiriau. 'Chedwais i ddim yn ôl.

Ystyriwyd a phwyswyd. Fe'u credodd Ednyfed Fychan.
Fe'u credodd Esgob Bangor. Fe'u credais
innau.
Gan wybod fod coron Aberffraw a theyrnas
Gwynedd
Ar antur enbyd y crogais i Gwilym Brewys.

(tud.77)

Wrth glywed Llywelyn yn siarad cawn ein synnu ei fod wedi crogi Gwilym gan wybod y byddai'n peryglu dyfodol Gwynedd. Fel Siwan, rydyn ni'n dyheu am gael gwybod pam y gwnaeth hynny. Synhwyrwn hefyd ein bod yn gweld y ddau gymeriad yn cydweithio wrth drafod fel hyn, mewn modd na ddigwyddodd o'r blaen yn y ddrama. Gwelwn pa mor dda y mae'r ddau yn cydweithio yma – ar y lefel hon mae'r ddau yn dîm da ac fel hyn y llwyddodd y berthynas.

Perthynas Siwan a Llywelyn

Wedi i gynllun Siwan gael ei ffurfio ac i'r ddau gytuno arno, dywed Llywelyn y byddai'n derbyn cyngor ei wraig ar un amod – rhaid iddi ddod yn ôl ato fel gwraig. Dyma pryd y daw atgasedd Siwan tuag at Llywelyn am ladd ei chariad i'r wyneb, ond ceir trafodaeth am faddeuant rhwng y ddau. Mae Siwan yn fodlon maddau i Llywelyn am ladd Gwilym ond fedr hi ddim maddau iddo am roi marwolaeth lleidr cyffredin iddo a thrwy hynny ddibrisio'r cariad a fu rhyngddi hi a Gwilym mewn modd mor gyhoeddus. Dydy hi ddim ychwaith yn fodlon derbyn maddeuant gan Llywelyn oherwydd y byddai hynny'n golygu ei bod yn ildio iddo ac yn derbyn yr hyn a wnaeth iddi.

Ceisia Llywelyn arbed rhywfaint ar ei gam trwy ddweud bod Gwilym wedi marw gydag urddas yn y modd yr aeth at y grocbren, ond nid yw hyn yn tycio gyda Siwan. Mae hi'n atgoffa Llywelyn o'r cywilydd amlwg oedd ar wynebau'r Cyngor, a geisiodd ddadlau y dylid torri pen Gwilym yn hytrach na'i grogi. Nid oes gan Llywelyn ymateb i hyn, ond mae'r llifddorau'n agor a chawn y cwestiwn hollbwysig ganddo, a'r ateb gan Siwan sy'n tanlinellu un o brif themâu'r ddrama, sef y diffyg cyfathrebu a'r diffyg dealltwriaeth rhwng y dau.

LLYWELYN: 'Drawodd o ar dy feddwl di, Siwan,
Y gallai 'mod i'n dy garu di fel Gwilym Brewys?
SIWAN: Ti'n fy ngharu? Be' wyt ti'n ei feddwl?
LLYWELYN: 'Ydy'r gagendor rhyngom gymaint â hynny?

(tud.79)

Gwelwn eto sut yr ystyria Siwan eu priodas a pha mor ddi-serch oedd yr holl beth wedi bod iddi:

SIWAN: ... Ymdreuliais yng ngorchwylion esgob a llysgennad,
Teithio yn dy wasanaeth, adeiledais gyda thi
deyrnas:
Unwaith, cyn fy henaint, daeth llanc, canodd
delyn i'm calon hesb,-
Fe'i crogaist fel sgadenyn wrth ben llinyn.

(tud.79-80)

Yna deallwn gan Llywelyn pam y rhoddodd daw ar Gwilym ar ddiwedd Act I. Roedd Gwilym wedi deall bod Llywelyn yn caru ei wraig ac nad cyfrwng neu beiriant cynhyrchu plant ac etifeddiaeth i deulu uchelwrol yn unig oedd hi. Nid oedd Llywelyn am i'w wraig weld ei wendid, a cheisiodd osgoi dangos iddi ei fod yn ei charu.

Cyffes Llywelyn

Fodd bynnag, sylweddola Llywelyn yn awr ei bod hi'n bryd iddo ddatgelu'r gwirionedd ac agor ei galon i 'saethau crechwen' trwy dweud wrth Siwan beth yw ei deimladau tuag ati. Yn araith fwyaf y ddrama daw holl drasiedi'r camddeall rhyngddynt i'r amlwg a cheir darlun gwahanol o Llywelyn.

Esbonia sut y daeth Siwan ato'n ifanc ac iddo syrthio dros ei ben a'i glustiau mewn cariad â hi. Deallai ei fod bum mlynedd ar hugain yn hŷn na hi ac mai materion gwleidyddol oedd pwrpas y briodas, nid cariad a rhamant. Teimlai y byddai hi'n ei weld yn atgas pe bai'n cyfaddef beth oedd ei deimladau, ac felly cadwodd bellter parchus gymaint ag y medrai. Yn y cyfamser, rhoddodd gyfle iddi fod yn rhan lawn o fusnes y teulu ac roedd ei chyfraniad yn amhrisiadwy o ystyried llwyddiant Gwynedd a chreu etifeddiaeth. Fel hyn y carodd Llywelyn hi, a thrwy roi cyfleoedd llawn iddi fel hyn y dangosodd ei gariad yn y modd mwyaf priodol, o ystyried y gwahaniaeth oedran. Pan gefnogai hi Llywelyn fel hyn, teimlai ef ei bod hithau'n ei garu yn ôl. Magai gryfder yn y teimlad hwnnw o fod yn un gyda hi, a chanddynt yr un nod mewn bywyd. Roedd yn ei haddoli hi.

Yna clywn un o linellau tristaf a mwyaf arwyddocaol, efallai, y ddrama:

> SIWAN: Llywelyn, 'wyddwn i ddim, 'wyddwn i ddim.
>
> (tud.82)

Gwelwn na ddeallodd y ddau ei gilydd y tu hwnt i ffiniau gwleidyddiaeth ers ugain mlynedd ac amlygir un o brif themâu'r ddrama eto, sef diffyg dealltwriaeth rhwng gŵr a gwraig.

Wedi cyfaddefiad teimladwy Llywelyn yn ei araith, mae newid yn awyrgylch y ddrama a synhwyrwn fod y ddau'n llai dig wrth ei gilydd. Esbonia Llywelyn hefyd beth oedd ei resymau dros grogi Gwilym. Gyda syndod a phenbleth, dealla Siwan mai o'i herwydd hi y penderfynodd grogi ei chariad. Pan ddaeth Llywelyn i fewn i'r ystafell y noson honno a darganfod y ddau ym mreichiau ei gilydd, fe'i brifwyd ef i'r byw. Ym marn Siwan, byddai derbyn cynnig Gwilym o dir a chastell fel iawndal am y sarhad – er mwyn osgoi cael ymateb gan farwniaid Normanaidd – wedi bod yn ddigon i wneud yn iawn am y cam. Ond ym marn Llywelyn roedd Siwan, trwy ddweud hyn, wedi dibrisio rhywbeth amhrisiadwy – sef ei gariad tuag ati. Mewn un ffordd yn unig y gallai ymateb i hynny, sef trwy grogi Gwilym a thalu'r pwyth yn ôl am y dirmyg, y sarhad a'r amharch a ddangosodd Siwan tuag ato.

> LLYWELYN: Bernaist yn dy ddirmyg ohonof mai polisi
> piau fy enaid,
> Y gwerthwn i 'ngwely am gastell
> A rhoi fy ngwraig i'w halogi am gynghrair
> a ffin.
> Mi atebais i ddirmyg â dirmyg,
> Fe'i crogais i wirio dy rybuddion
> Ac i ddangos i wraig a'm sarnai
> Fod un peth y taflwn i goron Aberffraw a
> Chymru Cunedda er ei fwyn.
>
> (tud.82)

Gwelwn yn ei eiriau fod elfen fyrbwyll a nwydus i'w gymeriad, yn ogystal â bod yn wleidydd pwyllog.

Natur priodas a dod i delerau

Ceir trafodaeth am natur priodas wedi i'r ddau esbonio beth oedd y cymhelliant y tu ôl i'w hymddygiad. Ni fedr gŵr a gwraig ddeall ei gilydd byth yn ôl Siwan ac i Llywelyn dyma'r hyn sy'n gwneud priodas werth chweil. Mae rhoi eich hun i rywun heb wybod yn union beth allai ddigwydd yn y dyfodol yn fodd o hapchwarae ac mae hapchwarae yn creu gwefr.

SIWAN: 'Does dim allwedd i galon;
'Does neb ar y ddaear yma'n deall ei gilydd;
Y gŵr sy'n cofleidio'r wraig a'r wraig sy'n
ateb â'i chusan,
Dwy blaned sy'n rhwym i'w cylchau; 'chlywan'
nhw mo'i gilydd fyth.

LLYWELYN: Onid hynny yw priodas, ymglymu heb adnabod,
Ymroi heb amddiffyn na gwybod i bwy na
pha siawns?
'Beth ond hapchwarae yw byw?

(tud.83)

Cyn dod i delerau caiff y ddau drafodaeth aneglur ac amwys am faddau i'w gilydd ac am frifo'i gilydd. Dywed Siwan na fedr hi ddod yn ôl at Llywelyn heb gael maddeuant. Eglura Llywelyn fod maddeuant ar gael iddi, ond gwelwn fod Siwan yn ystyried bod cael maddeuant gan Llywelyn yn ffordd o ildio a rhoi goruchafiaeth foesol iddo.

Yna ceir araith gan Siwan sy'n gorddweud ac yn gorliwio sefyllfa'r ddau ohonynt, gan bortreadu Siwan fel gwraig ddrwg a Llywelyn fel arwr na all wneud dim o'i le. Daw'r sgwrs hon â chwerthin i'r ddrama am y tro cyntaf, a theimlir mymryn o ryddhad – rhywbeth sydd yn brin yn y ddrama ar y cyfan.

Mae Siwan yn rhyfeddu ei bod yn clywed Llywelyn yn gofyn am faddeuant ganddi, ac yn hytrach na maddau iddo, dywed ei bod yn deall pam yr oedd yn gandryll gyda hi y noson honno. Yn fwy na hynny, dywed nad oes angen iddo gyfaddef ei fod wedi bod yn greulon. Mae hi'n cyfaddef ei bod hi hefyd yn euog o chwarae gêm o geiso cael goruchafiaeth foesol arno, a cheir chwerthin eto. Pan ofynna Llywelyn eto am faddeuant gan Siwan, mae hi'n ymateb trwy ddweud na fydd dianc iddo rhag y ffaith fod Gwilym wedi gweiddi ei henw wrth iddo farw a'u bod wedi mwynhau perthynas odinebus â'i gilydd, er gwaethaf y loes achosodd Llywelyn iddi hi trwy grogi Gwilym.

Daw'r ddau i ryw fath o gyfaddawd anghyfforddus. Cyfaddefa'r ddau eu bod wedi trin ei gilydd yn wael ond bod y cysylltiad sydd rhyngddynt oherwydd priodas hir, lle bu cydweithio ardderchog i greu llinach frenhinol a theyrnas gadarn yng Ngwynedd, yn eu tynnu'n ôl at ei gilydd. Pe baent yn ailgydio yn y berthynas briodasol ni fydd gwadu nac anghofio bod y ddau wedi brifo'i gilydd ond, fel y byddem yn ei ddisgwyl mewn drama glasurol, fe wêl y ddau fod dioddef hynny'n bris teg am ddyfodol llawn gobaith a llwyddiant i Wynedd.

LLYWELYN: 'Ddoi di'n ôl, Siwan?
SIWAN: Rhyngom yn y gwely os dof bydd drewdod
halogiad dy serch.
LLYWELYN: Rhyngom yn y gwely os doi bydd celain yn
crogi wrth raff.
SIWAN: 'Be 'wnawn ni â nhw, Llywelyn?

LLYWELYN: Estyn breichiau drostynt tuag at ein gilydd
A'u cymryd hwythau atom fel eneidiau'n
cartrefu yn y Purdan;
Purdan yw gorau priodas, y paratoi.
Fi yw'r tân sy'n dy grino a'th ladd di,
Tân ar dy groen di, hen ŵr sy'n fwy o sefydliad
Nag o ddynoliaeth, y gwleidydd yn y gwely.
Tithau a'th atgo am lanc a roes naid at dy gusan
a'i dranc,
'Ddoi di'n ôl ataf, Siwan?
SIWAN: Mae arfer chwarter canrif yn fy nhynnu'n ôl.
LLYWELYN: Mae etifeddiaeth dy fab yn dy dynnu'n ôl.

(tud.86)

Dywed Siwan ei bod yn dymuno'n dda i Llywelyn wrth amddiffyn Gwynedd ac mae Llywelyn yn darganfod nerth newydd yn ei chefnogaeth iddo. Gallwn gymryd bod cyfaddawd anesmwyth rhwng y ddau wedi ei gyrraedd felly.

Cais Siwan

Cyn cadarnhau adferiad Siwan i'w lle fel tywysoges wrth ymyl Llywelyn cawn gais diddorol ganddi. Dymuna Siwan gael ei chladdu yn Llanfaes ar Ynys Môn a bod Llywelyn yn rhoi'r tir lle cleddir hi i'r Brodyr Llwydion. Gwelir eironi yma, wrth i ni gofio mai'r mynachod oedd yn dilyn esiampl Sant Ffransis oedd yn gwisgo gwisgoedd llwydion. Ffransis oedd y sant yr oedd Siwan yn gweld tebygrwydd rhyngddo ef a Gwilym, oherwydd y beiddgarwch rhamantus a oedd yn rhan o'i fywyd cyn iddo droi'n grefyddol. Mae mwy nac un modd o ddehongli pam mai dyma'i dymuniad. Dywed fod ganddi ddyled i'w dalu i 'Sant y cortyn'. Gallwn gymryd, ar un olwg, mai diolch i Ffransis am gael profi serch nwydus gyda Gwilym unwaith yn ei bywyd y mae hi. Wedi dweud hyn, fe gofiwn fod Ffransis yn gwisgo cortyn am ei ganol fel arwydd y dylid byw bywyd *heb* gael cyfathrach rhywiol. Ai pennyd am odinebu yw ei dymuniad bod Llywelyn yn rhoi tir i'r Brodyr Ffansis a'i bod hi'n cael ei chladdu yno? Ynteu ai symud tuag at ymwrthod â chyfathrach rhywiol y mae hi?

Mae Llywelyn yn anfodlon nad yw hi'n cael ei chladdu gydag ef ond fel y dywed Siwan, mae cyfrifoldebau priodasol yn dod i ben gyda marwolaeth. Mae hi'n dod yn ôl ato er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau priodasol; pan fydd hi wedi marw, fe gaiff ryddid – y rhyddid na chafodd ei brofi yn ystod ei bywyd. Am eiliad teimlwn dristwch a thrasiedi'r sefyllfa yn dod yn ôl, hyd nes i Llywelyn gytuno a dweud ei fod yn dymuno i'r goron gael ei gosod eto ar ei phen.

Alis yn ôl i'r llwyfan

Daw Alis yn ôl ar y llwyfan i gloi'r ddrama, a cheir tynnu coes ac ysgafnder rhyngddi hi a Llywelyn. Wrth i'r goron ddod o'r gist lle rhoddodd Alis hi flwyddyn ynghynt a chael ei gosod eto ar ben Siwan, caiff trefn ei adfer ym mywydau'r cymeriadau ac felly hefyd yn y gymdeithas y maent yn rhan allweddol ohoni.
Ceir cymysgedd o deimladau ar ddiwedd y ddrama i'r gynulleidfa. Yn bendant, ceir ysgafnder yn hwyliau Llywelyn ac felly ynom ni'r gwylwyr. Teimlir bod y sefyllfa wedi ei datrys, ac mai hwn oedd y catharsis sy'n rhan o drasiedïau clasurol Groegaidd. Wedi dweud hynny, nid oes dianc rhag y ffaith mai cyfaddawd anesmwyth rhwng gŵr a gwraig sydd wedi digwydd, wrth i'r ddrama ddod i'w therfyn gyda bloedd bositif yr utgorn. Does dim dianc rhag y ffaith mai parhau i fod mewn sefyllfa drist ac amherffaith y mae'r cymeriadau mewn gwirionedd.

5. Cymeriadau

5.1 Siwan

Er mai cymeriad wedi ei chreu yw'r Siwan a geir yn y ddrama, mae llawer o debygrwydd rhyngddi a'r cymeriad go iawn. Ganwyd hi y tu allan i briodas, yn ferch i'r Brenin John, ac mi briododd â Llywelyn yn ifanc am resymau gwleidyddol cyn mynd ato i fyw yn bedair ar ddeg oed. Yn bymtheg oed, cafodd ei phlentyn cyntaf ac yn yr un flwyddyn gweithiodd fel llysgennad er mwyn perswadio'i thad i beidio â meddiannu Gwynedd. Rhoddodd gyngor i'w gŵr ar faterion gwleidyddol yn rheolaidd a chafodd ei chydnabod gan y Pab fel merch i John. Sefydlwyd llinach frenhinol ganddi hi a'i gŵr yng Ngwynedd. Ffrances oedd hi i bob pwrpas.

Rydyn ni'n ymwybodol o'r ffeithiau hanesyddol hyn yn y ddrama, ond mae'r person sydd o'n blaenau ni gymaint mwy diddorol na'r ffeithiau sych. Pan gwrddwn ni â hi ar ddechrau'r ddrama, cawn ein taro gan y ffordd y siarada hi, sef tywysoges aeddfed ac o dras uchel, â morwyn ifanc, gyffredin fel Alis mewn modd mor hamddenol.

Mae hi'n gymeriad anfodlon ac anniddig, a synhwyrwn flinder ar y dechrau hefyd. Ni fwynheuodd hi yn y dathliad. Clywn hefyd am bwysau cyfrifoldeb ei bywyd fel tywysoges, ac na chafodd hi garu pwy bynnag y byddai hi'n dymuno, fel y cafodd Alis:

> SIWAN: ... Yn bymtheg oed
> Mam i dywysog a llysgennad Aberffraw.
> Rhoddais fy nghroth i wleidyddiaeth fel
> pob merch brenin.
>
> (tud.37)

Cyrhaedda'r diflastod hwn uchafbwynt pan gaiff Alis fonclust ganddi. Yn y weithred hon daw ei rhwystredigaeth yn amlwg, wrth iddi aros i gael gweld Gwilym ac oherwydd yr ymdeimlad o fod mewn sefyllfa amhleserus ers pan oedd hi'n ifanc, mewn priodas â hen ŵr.

Mae hi'n ferch ddeallus a medrus fel gwleidydd. Clywn am ei chyflawniadau wrth iddi siarad â Gwilym ac mae hi'n ymfalchïo yn ei llwyddiant o greu llinach frenhinol yng Ngwynedd. Serch hynny, bu gwneud hyn yn anodd iddi. Mae hi'n cyfaddef bod elfen fentrus, anghyfrifol a gwyllt i'w chymeriad a chadwodd y pethau hyn dan reolaeth trwy ganolbwyntio ac ymgolli yn y gwaith o greu teyrnas gyda'i gŵr:

> SIWAN: Dyna 'nihangfa i. Cefais gyda'm gwaed
> Egni nwydwyllt fy nhad. Rhag chwalu
> 'mywyd
> Mi ymdeflais i waith gŵr ac i waith fy ngŵr.
>
> (tud.42)

Yn hyn o beth gallwn gydymdeimlo â hi – mae hi mewn sefyllfa amhosib. Gwneir pethau'n waeth oherwydd bod Gwilym yn tanio'r elfennau cudd hyn ynddi. Mae hi'n dyheu am gael profi pleserau bywyd gyda Gwilym a dianc o'i bywyd diflas, er ei bod hi ar yr un pryd yn sylweddoli pa mor beryglus a dinistriol fyddai gwneud hynny. Gallwn weld hyn yn y sylwadau isod ganddi:

> SIWAN: Gyda thi, mae siarad am wleidyddiaeth yn
> amddiffynfa i mi.

GWILYM: Pa amddifyn sy raid iti wrtho?
SIWAN: Credu fod fy mywyd i'n werth ei fyw.

(tud.42)

Ac eto:

SIWAN: ... mae ynof i fy hun
Bethau 'r wyt ti'n eu deffro sy'n ddychryn imi.
GWILYM: Y pethau sy'n gwneud bywyd yn bêr.
SIWAN: Y pethau sy'n gwneud byw yn chwerw,...

(tud.42)

Felly nid ar chwarae bach y mae hi'n mentro gyda Gwilym. Mae Siwan yn ferch aeddfed sy'n deall pa mor ofnadwy y gallai canlyniadau caru gyda Gwilym fod, er ei bod yn ysu i gael profi'r pleser ar yr un pryd.

Gwelwn elfen ddynol iawn ynddi hefyd pan ddengys hi ansicrwydd yn ei sgwrs gyda Gwilym. Mae ei chwestiwn, 'Ai un o'r grawnsypiau ydw' i?', yn awgrymu ei bod hi'n amheus o wir deimladau Gwilym, y carwr beiddgar, mentrus, tuag ati. Beth bynnag fo'i hamheuon a'i hansicrwydd, mae ei dyhead i brofi'r rhyddid a'r rhamant y bydd pobl gyffredin fel Alis yn ei fwynhau yn mynd yn drech na hi. Mae'r 'egni nwydwyllt' yn cael goruchafiaeth ar ei synnwyr cyffredin a'r dyletswydd i ymddwyn yn gyfrifol.

Mae 'heno' gyda Gwilym yn bopeth iddi. Gwelwn yr angen ynddi i ymgolli yn rhamant a nwyd y sefyllfa:

SIWAN: ... Fy rhodd i iti yw heno.
GWILYM: A pham, Siwan? Pam, fy rhoddwr mawr?
SIWAN: Am dy fod di'n cofio blas pethau
A bod blas yn darfod mor fuan;
Am iti chwerthin ar berigl
A bod bywyd ar antur mor frau;
Am fod dy orfoledd di yn fy ngallu
A bod rhoi i ti d'orfoledd yn bêr.
Am ei bod hi'n awr yn galan Mai.

(tud.47)

Elfen arall yng nghymeriad Siwan yw ei hymdeimlad o fod ar wahân ac yn unig. Ffrances yw hi mewn gwlad lle na fyddai bron neb heblaw Gwilym yn deall ei hiaith na'i diwylliant Ffrengig. Mae hi'n teimlo ei bod wedi cael ei thaflu i wlad estron er mwyn bod yn rhyw fath o beiriant cenhedlu etifeddiaeth i Llywelyn:

SIWAN: ... am fy
mod i yma'n
Alltud, a'm hunig werth yw fy ngwerth i
gynnydd gwlad.

(tud.42)

Caiff yr unigedd hwn ei ddwysáu yn Act II pan gaiff hi ei gwneud yn garcharor yn y tŵr. Yn Act II gwelwn ochr arall i'w chymeriad wrth iddi siarad ag Alis. Gwelwn ochr addfwyn a thyner iddi wrth i Alis grio mewn ofn a cheisio osgoi esbonio'r sŵn morthwylio o'r lawnt, ac eto wrth iddi lewygu wedi deall bod Llywelyn yn bwriadu crogi Gwilym. Am

gyfnod byr y gwelir hyn, ac am weddill Act II daw'r ochr gadarn a chryf i'r wyneb:

> SIWAN: Mi dd'wedais fod arna' i g'wilydd o'm gwendid gynnau.
> Syrthia' i ddim mewn llewyg na gweiddi na gollwng deigryn.
>
> (tud.63)

Tua diwedd y ddrama, a thrwy gydol ei sgwrs gyda Llywelyn, gwelwn ei deallusrwydd wrth ymdrin â materion dyrys gwleidyddiaeth, a'i chadernid wrth ymateb i'w gŵr fel person cydradd. Pan deimla hi ei bod hi'n ôl yn y safle hwn, mae hi'n barod i syrthio ar ei bai a chytuno iddi wneud cam â'i gŵr.

Rhaid hefyd cydnabod ei dylanwad hi ar lys Llywelyn. Mae elfen Ffrengig gref yng nghyfundrefn y llys, e.e. y naws Ffrengig a geir i'r noson ar ddechrau'r ddrama gyda'r dawnsfeydd Aquitaine a'r gerddoriaeth Ffrengig yn rhan o'r dathliadau. Cafodd Siwan ddylanwad ar sut y byddai teuluoedd Cymreig yn trosglwyddo eiddo trwy etifeddiaeth hefyd. Teulu Llywelyn oedd y cyntaf i droi at y trefniant Normanaidd lle byddai'r mab hynaf yn etifeddu eiddo'r teulu ar farwolaeth y tad, yn hytrach na dilyn yr hen arfer Cymreig o rannu'r etifeddiaeth rhwng y meibion i gyd. Wrth wneud hyn torrwyd cyfreithiau Hywel Dda. Roedd hyn yn rhan o strategaeth Siwan i greu llinach frenhinol yng Ngwynedd, ac roedd Llywelyn yn dymuno iddi ddefnyddio'i galluoedd fel trefnydd a gwleidydd.

Cymeriad ag iddi nifer o elfennau amrywiol yw Siwan, a dyna pam ei bod yn gredadwy ac yn apelio atom fel cynulleidfa. Mae hi'n gymeriad sydd yn caniatáu i Saunders Lewis archwilio'r themâu hynny sy'n arwain at ei thrasiedi. Gwna Saunders Lewis rywbeth tebyg o ran archwilio themâu yn ei ddrama, *Blodeuwedd,* ac yn ei nofel fer, *Monica*.

Rydyn ni i gyd wedi dyheu am wneud rywbeth na ddylem ei wneud am ei fod yn anghywir ac yn debygol o achosi problemau i bobl eraill. Dyna pam y gallwn gydymdeimlo â sefyllfa Siwan ac uniaethu â hi.

5.2 Llywelyn

Clywn lawer am gymeriad Llywelyn cyn i ni ei weld ar y llwyfan, trwy drafodaethau Siwan a Gwilym amdano yn Act I. Pan ddaw i'r llwyfan, nid yw'n gwneud dim ond dadlau a gweiddi yn y ddwy act gyntaf. Am gyfnod helaeth, gwelwn ef fel cymeriad blin a chanddo ond un dimensiwn. Serch hynny, pan ddaw'r 'hen ŵr' i'r llwyfan yn Act III gwelwn newid mawr ynddo.

Mae ein barn amdano wedi cael ei lywio cyn i ni ei weld mewn gwirionedd, a chymeriad ffyrnig a phenderfynol yw Llywelyn yn ein meddyliau pan ddown i gwrdd ag ef yn Act I. Wedi dweud hynny, mae ganddo achos dros deimlo'n anhapus. Ond dyn pwyllog a myfyrgar sydd gydag Alis yn Act III. Ar ôl problemau'r flwyddyn a aeth heibio, mae bywyd yn teimlo'n enbyd iddo, gyda bygythiad pellach i'w deyrnas, Hubert de Burgh, yn gwmwl ar ei fywyd hefyd:

> LLYWELYN: Rhodd enbyd yw bywyd i bawb.
>
> (tud.71)

Yn Act III cawn ddarlun newydd o gymeriad Llywelyn felly. O dan yr wyneb mae cymeriad dynol a sensitif i'w weld. Mae ei broblem ef yn debyg i broblem Siwan yn y bôn – mae bywyd yn ei orfodi i ymddwyn mewn ffordd sydd yn groes i'w hanfod fel cymeriad. Mae

Siwan yn gymeriad gwyllt mewn byd lle mae'n rhaid iddi ymddwyn mewn modd cyfrifol, ac mae Llywelyn yn gymeriad sensitif mewn byd lle mae angen dangos cryfder a chuddio unrhyw deimlad emosiynol. Rhaid iddo fod yn arweinydd cadarn ac effeithiol, a hyn sydd yn rhoi'r elfen drasig i'w gymeriad.

Pan ddaw Siwan i'r llwyfan cawn ein synnu wrth glywed y gŵr a alwodd ei wraig yn 'butain' yn Act I, yn dweud yn awr ei fod ei '[h]eisiau' hi. Clywn hyn dair gwaith, ynghyd ag: 'Apêl yw hyn,/nid gorchymyn.' (Act III). Gwelwn fod ganddo wendid emosiynol fel pob dyn cyffredin, ynghyd â chryfder arweinydd a'r gallu i fod yn ymosodol a blin.

Gallwn gydymdeimlo hyd yn oed mwy â Llywelyn wrth iddo agor ei galon yn ei araith fawr yn Act III. Yn yr araith hon, gwelwn ddyn sy'n deall ei ffaeleddau ac sy'n ymddangos bron yn swil. Deallai na fyddai Siwan pan oedd hi'n bedair ar ddeg wedi gallu dioddef nac ychwaith agosáu llawer at ŵr a oedd dros ugain mlynedd yn hŷn na hi, ond gallwn weld ei fod wirioneddol yn caru Siwan. Nid llestr i greu llinach deuluol yn unig oedd hi iddo ond rhywun i'w charu, ei pharchu ac i fyw bywyd priodasol ffyddlon gyda hi. Mae trychineb fawr y ddrama yn cael eu hamlygu yng ngeiriau Siwan: 'Llywelyn, 'wyddwn i ddim, wyddwn i ddim.' (Act III).

Gwelwn elfen wyllt a mympwyol i Llywelyn hefyd pan sonia am ei hoffter o 'hapchwarae' yn Act III. Y gwahaniaeth rhyngddo ef a Gwilym yn hyn o beth yw mai o dan bwysau anarferol ac wrth ymateb i sefyllfa eithafol fel godineb ei wraig y gwelwn yr elfen hon yn dod i'r amlwg yn Llywelyn. Fe gofiwn fod Siwan yn gweld yr elfen fympwyol yn Gwilym yn ddeniadol yn Act I, ac mae eironi yn y ffaith na welodd hi'r elfen hon yn ei gŵr. Dywed Siwan nad oes lle i serch na hapchwarae mewn gwleidyddiaeth. I Llywelyn, nid oedd eu gorchestion fel pâr priodasol yn ddim os nad oedd ffyddlondeb a chariad ei wraig yn sicr yn ei feddwl:

SIWAN: ... Nid llywodraeth
yw maes hap-chwarae.
LLYWELYN: Fe droes dy ddirmyg di y noson honno
Holl gynlluniau llywodraeth hannner canrif yn dom.

(tud.83)

Erbyn diwedd y ddrama gwelwn fod Llywelyn, fel Siwan, yn gymeriad sydd yn gymysgedd o elfennau, a gallwn gydymdeimlo ac uniaethu ag ef oherwydd ei fod yn berson credadwy.

5.3 Gwilym

Yn yr act gyntaf yn unig y cawn fod yng nghwmni Gwilym – gŵr ifanc, deniadol a chymeriad rhamantus. Mae perygl i ni ei weld fel cymeriad lleiaf cymhleth y ddrama, o'i gymharu â Siwan a Llywelyn – mae Gwilym yn ifanc, yn olygus, yn ddewr, yn feiddgar, yn nwydus, ac yn hoff o hapchwarae. Serch hynny, gwelwn ddwy ochr iddo yn y pen draw, sy'n ei wneud yn gymeriad llawn a chredadwy.

Yn sicr mae'n gymeriad nwydus, ac mae ei synhwyrau'n fyw:

GWILYM: Rhaid fy nghymryd i, Siwan, fel yr wyf; er
yn blentyn
Hela, hapchwarae a rhyfel fu f'elfen i;
Fel yna mae gwasgu grawnwin bywyd a
phrofi
Ias y blas ar daflod y genau'n llawn.

(tud.45)

Mae ei egni rhamantus yn cynnau teimladau y mae Siwan yn ceisio'u rheoli'n feunyddiol. Wrth ddisgrifio gweld Siwan yn y briodas yn Henffordd pan oedd yn fachgen ifanc, gwelwn elfen gariadus ei gymeriad hefyd:

GWILYM: 'Roedd fy nghalon yng nghorn fy ngwddw a
minnau heb ffun.
Ond cipiais un o'r rhosynnau 'fu dan dy droed
A hwnnw fu 'ngobennydd i'r noson honno,
Golchais ei ddail â chusanau hapus llanc.

(tud.43)

Os cymharwn araith fach Gwilym yma ag araith fawr Llywelyn yn Act III, mae'n ymddangos yn ifanc iawn; bron yn anaeddfed o felys a rhamantus. Cyfeiria'r cymeriadau eraill at ieuenctid Gwilym yn gyson hefyd: 'Hogyn wyt ti o hyd' (Siwan, Act I); 'Fy llanc tragwyddol i' (Siwan, Act I); 'Mae o mor ifanc...' (Alis, Act II) a 'Plentyn oedd Gwilym Brewys, syr, plentyn bach.' (Alis, Act III). Mae ieuenctid y cymeriad yn ennyn rhywfaint o gydymdeimlad ynom, ac uchafbwynt y rhamant yw ei floedd wrth iddo neidio i'w farwolaeth.

Yn sgil ei ieuenctid, daw byrbwylledd a rhywfaint o ddiniweidrwydd. Caiff bryd o dafod gan Siwan am adael i Hubert de Burgh wybod ei fod yn ei chwmni'r noson honno gan fod Llywelyn wedi mynd i ymweld â Hubert. Nid yw Gwilym wedi deall yr angen am ofal wrth gynnal y garwriaeth. Serch hynny, gwelwn ei fod yn ddigon aeddfed i ddeall nifer o bethau pwysig. Tynna sylw Siwan at y bygythiad i etifeddiaeth Dafydd, ei mab, oherwydd fod gan Gruffydd, mab Llywelyn â Thangwystl, feibion eisoes. Gŵyr beth yw galluoedd Siwan fel gwleidydd wrth drefnu materion Gwynedd gyda'r brenin a'r barwniaid eraill. Gŵyr hefyd pa mor bwysig yw hi i Llywelyn:

GWILYM: Fe ffurfiaist dy Dywysog yn un ohonom ni,
A dysgu i'r Cymry wrhau.

(tud.41)

Wrth i'r act gyntaf ddod i'w therfyn sylwn ei fod yn paratoi i dderbyn ei gosb yn ddi-gwyn. Wrth i Llywelyn agosáu a wynebu'r pâr godinebus mae fel pe bai'n derbyn ei fod wedi gwneud drwg ac y bydd yn rhaid iddo dderbyn penderfyniad Llywelyn, beth bynnag fydd hwnnw. Yn ei ddiniweidrwydd, caiff ei synnu bod Llywelyn yn bwriadu ei ddienyddio, ond mae'n ddigon craff i ddeall mai oherwydd fod Llywelyn yn caru Siwan o waelod ei galon y mae'n mynnu'r fath gosb.

Caiff y cymeriad ei liwio mewn modd sydd ar yr olwg gyntaf yn ystrydebol, hynny yw, y carwr ifanc, rhamantus, beiddgar; ond mae Gwilym yn dipyn mwy na hynny'n unig. Dyma pam ei fod yn ein denu wrth i ni wylio, a dyma pam ein bod ni, fel Alis a Siwan, yn tristáu wrth glywed am y cymeriad sy'n gallu 'tasgu llawenydd' (Alis, Act II) yn cael ei grogi – beth bynnag fo'n barn am ei ymddygiad â Siwan. Does dim gwadu ychwaith ei fod yn derbyn ei gosb gydag urddas a heb gwyno, sydd yn awgrymu aeddfedrwydd pellach.

5.4 Alis

Mewn hen ddramâu clasurol Groegaidd ymddangosai grŵp o actorion a elwid yn Corws. Byddent ar y llwyfan trwy gydol y ddrama a'u gwaith oedd cadw llif y ddrama, cynnig sylwadau ar yr hyn oedd yn digwydd a mynegi pethau na fedrai'r prif gymeriadau eu mynegi – er mwyn cynorthwyo'r gynulleidfa i gael gwell dealltwriaeth o sefyllfa'r cymeriadau. Dyma un o brif ddyletswyddau Alis yn y ddrama *Siwan,* ond rhaid dweud ei

bod hi hefyd yn ymddangos fel cymeriad real sy'n ein hargyhoeddi.

Yn Act I, mae Alis gyda'i meistres yn yr ystafell wely, ac yn sgwrsio am ramant y noson. Wrth gwrs, mae Siwan o dan bwysau oherwydd bod ei chariad ar fin dod i'w i'r ystafell. Amlygir y gwahaniaeth rhwng statws cymdeithasol Siwan a'i morwyn wrth i Alis drafod ei bywyd carwriaethol fel merch rydd, gyffredin yn mwynhau Calan Mai. Mae llais Alis yn ifanc a dibryder, mewn cyferbyniad â Siwan. Yn Act I teimlwn hefyd fod agosatrwydd rhwng Siwan ac Alis – mae Alis yn *confidante* iddi. Mae rhywbeth anffurfiol a chynnes yn y drafodaeth am ddigwyddiadau rhamantus Calan Mai ac yn nisgrifiad Alis o rinweddau Gwilym Brewys fel dyn ifanc deniadol. Mae'r sgwrs yn dylanwadu ar Siwan – mae ei meddyliau'n troi at bethau rhamantus a phleserus ar yr un llaw, ond mae'r meddyliau hyn yn pigo'i chydwybod ar y llaw arall. Tyndra rhwng y dymuniad i brofi serch a'r sylweddoliad na fydd pobl yn deall ei pherthynas hi a Gwilym sydd yn arwain at y fonclust.

Mae Alis yn allweddol o ran symud naratif y ddrama yn ei flaen a'n gwneud yn ymwybodol o ddigwyddiadau'r ddrama. Wrth iddi ddisgrifio'r crogi yn Act II, mae ei geiriau'n dod â'r digwyddiad yn fyw i Siwan ac i'r gynulleidfa. Mae ei hiaith yn effeithiol wrth ddisgrifio erchylldra crogi a ffieidd-dra'r dyrfa ddaeth i wylio. Erbyn diwedd yr olygfa, nid merch ddibryder a rhamantus a gawn ond gwraig aeddfed wedi ei syfrdanu gan arswyd yr hyn sy'n digwydd ar lawnt y llys. Hi sydd yn crynhoi tristwch y sefyllfa ar ddiwedd Act II:

ALIS: Mae'r siou ar ben a bu'n siom. Be' wyddan',
be' falian' nhw
Am weddw yn Aber-honddu, neu am wraig
o garcharor yma
Yn gwegian dan ei hing? Gwahanglwyf yw
poen,
Ffau o dywyllwch yng ngolau dydd a dirgelwch;
'Does neb erioed a gydymdeimlodd â phoen.

(tud.68)

Clywn eiriau doeth ganddi yn Act III hefyd, wrth iddi drafod y sefyllfa gyda Llywelyn. Mae hi'n deall sut y bu i'r briodas fethu, a hi sy'n awgrymu y dylai Llywelyn fynegi ei gariad tuag at Siwan. Gwelir dylanwad Alis ar Llywelyn yma wrth iddi ei orfodi i wynebu pethau sy'n creu poen meddwl iddo:

ALIS: ... Mae rhyfel a chynghreirio a holl brysurdeb
teyrnasu
Yn gae o gwmpas tywysog, mae ei fawredd o
ar wahan.
Ond i ni ferched, ie i ferch o frenhines,
Greddf mam yw gwraidd pob cariad, a chyntaf-anedig
gwraig
Yw'r gŵr priod y rhoddir hi iddo yn eneth;
O golli'r plentyn ynddo mae gwraig ar ddisberod, syr.

(tud.71)

I grynhoi, ei neges hi yw bod bai ar Siwan ac arno ef am ddirywiad eu priodas.

Gwelwn elfennau amrywiol i'w chymeriad yn ystod y ddrama. Ar y dechrau mae hi'n ifanc, yn fywiog ac yn rhamantus ei natur; yn y canol gwelwn ofn a thristwch dwys; erbyn

y diwedd mae aeddfedrwydd a doethineb i'w weld yn ei chymeriad. Mae hi'n lleisio llawer o'n meddyliau ni fel cynulleidfa, ac yn cyflawni rôl y Corws yn hyn o beth, ond mae hi hefyd yn dod yn fyw fel person a chymeriad yng nghyd-destun y ddrama. Pan glywn am ei thrasiedi personol hi o golli ei gŵr yn fuan ar ôl priodi, gwelir dimensiwn arall iddi, sy'n gwneud iddi apelio mwy atom eto. Ychwanega Alis lawer at ddwyster y stori. Mae'n ddiddorol hefyd fod Saunders Lewis wedi dechrau'r ddrama trwy roi Alis ar y llwyfan a chloi'r ddrama â hi'n dychwelyd i'r llwyfan.

6. Themâu

Rhaid cofio mai drama glasurol yw Siwan ac mai rhan o fwriad yr awdur oedd archwilio themâu sydd yn ymwneud ag egwyddorion y meddylfryd clasurol. Gwna Saunders Lewis hyn trwy gyfosod cysyniadau sy'n perthyn i'r dull clasurol o feddwl â chysyniadau sy'n perthyn i'r dull rhamantaidd o feddwl.

Mae drama'n dibynnu ar gymeriadau i gyflwyno'r themâu. Bydd eu geiriau a'u hymddygiad yn ystod y ddrama yn gwneud i ni feddwl am y themâu sydd gan yr awdur yn ei feddwl wrth gyfansoddi.

6.1 Serch a chariad

'Serch' yw cariad corfforol a 'chariad' yw cariad ysbrydol ac emosiynol. Dyfeisiwyd trasiedïau clasurol am y tro cyntaf yng ngwlad Groeg, ac yno gelwir cariad ysbrydol yn *agape* a chariad corfforol yn *eros*. Ceir cyfosodiad rhwng *eros* ac *agape* yn y ddrama hon. Yn y ddrama, mae'r ddau'n cael eu gwahanu trwy gyfrwng y cymeriadau, er y byddai llawer yn dadlau y dylai cariad a serch fod yn rhan o berthynas naturiol gŵr a gwraig. Mae cariad ysbrydol (*agape*) yn rhywbeth positif ac adeiladol sydd yn sylfaen i briodas gadarn ym meddwl clasurwyr fel Saunders Lewis. Gwelir y tyndra rhwng *eros* ac *agape* yn nramâu clasurwyr fel Racine a Corneille yn yr ail ganrif ar bymtheg, a dylanwadodd gwaith y dramodwyr hyn yn fawr ar waith Saunders Lewis.

Y rhesymeg glasurol yw y daw teuluoedd llwyddiannus o briodasau cadarn, a chymdeithas o deuluoedd diogel a fydd yn creu byd gwaraidd i bawb. Bodau dynol yn unig a all garu yn y modd hwn; nid yw'n rhywbeth sy'n perthyn i anifeiliaid na byd natur. Rhywbeth darfodedig yw serch neu gariad corfforol, heb elfen ysbrydol. Heb gariad ysbrydol gall serch fod yn rhywbeth dinistriol a fydd yn chwalu teuluoedd neu'n creu teuluoedd aflwyddiannus, ac felly yn ei dro'n tanseilio cymdeithas lwyddiannus.

Cynlluniwyd y ddrama fel bod Llywelyn yn cynrychioli'r gŵr cyfrifol sy'n caru ei wraig ac yn gweithredu'n gyfrifol dros bawb ar y naill law, a Gwilym ar y llaw arall sydd yn ifanc, anghyfrifol a hunanol ac sydd yn diwallu ei ddyheadau personol cyn meddwl am eraill. Hanes Siwan yn cefnu ar gyfrifoldeb ac yn ochri ag anghyfrifoldeb am gyfnod sydd yn y ddrama, a sgil-effeithiau dinistriol gwneud hyn. Heno sy'n bwysig i Siwan a Gwilym – byw i'r foment, fel petai. Gan mai cymeriadau o haen uchaf y gymdeithas yw'r rhai yn y ddrama, mae canlyniadau hyn yn creu anhrefn ar lefel bersonol a chenedlaethol. Drwy fod yn hunanol, mae Siwan yn cicio'r nyth cacwn, sydd yn sail i ddigwyddiadau a gwrthdaro'r ddrama. O'i herwydd hi, y mae Gwynedd mewn sefyllfa beryglus.

6.2 Unigedd

Diffyg cyfathrebu yw un o brif themâu'r ddrama hon. Nid Cymraes yw Siwan – Ffrances yw hi a gafodd ei rhoi'n ifanc iawn gan ei thad i briodi hen ddyn. Mae'r bwlch oedran yn sylweddol ac yn allweddol yn y diffyg cyfathrebu a welir rhwng y ddau. Dywed Siwan ei hun yn yr act gyntaf ei bod hi'n 'alltud'. Ei phwrpas mewn bywyd oedd cyflwyno plant ac etifedd i Llywelyn a byw bywyd cyfrifol gwraig arweinydd. Clywn hi'n sôn am hyn ac unigedd ei sefyllfa wrth Alis yn y ddwy act gyntaf. Yn hyn o beth gallwn gydymdeimlo â hi.

Nid hi yw'r unig un sydd yn unig ychwaith. Gwelwn sut y mae Llywelyn wedi cadw ei deimladau cariadus tuag at ei wraig iddo'i hun, a sut, trwy gydweithio i greu teyrnas a'r holl gyfrifoldeb sydd ar ysgwyddau'r ddau, y mae Llywelyn a'i wraig wedi ymbellhau yn emosiynol oddi wrth ei gilydd. Fel y dywed Llywelyn, mae'r briodas yn un ffurfiol a gwleidyddiaeth yn ei chanol.

Gwelwn Siwan yn ymateb i'w hunigedd trwy feddwl bod perthynas nwydus gyda Gwilym yn ddihangfa. Wedi i hyn ddigwydd, clywn Llywelyn yn agor ei galon ac yn datgan ei gariad dwys ac angerddol tuag at Siwan, ac fe'i gwelwn hithau'n synnu wrth glywed ei eiriau. Mae'n rhyddhad i ni glywed hyn yn yr act olaf, a gweld y ddau'n dod yn ôl at ei gilydd ar ddiwedd y ddrama. Fodd bynnag, nid yw Saunders Lewis yn dymuno i ni weld pethau mor 'hapus' a pherffaith â hynny. Y neges erbyn diwedd y ddrama yw, pa bynnag gariad sydd rhwng gŵr a gwraig, fyddan nhw byth yn deall ei gilydd yn gyfan gwbl. Fel y dywed Siwan:

> SIWAN: 'Does neb ar y ddaear yma'n deall ei gilydd;
> Y gŵr sy'n cofleidio'r wraig a'r wraig sy'n
> ateb â'i chusan,
> Dwy blaned sy'n rhwym i'w cylchau; 'chlywan
> nhw mo'i gilydd fyth.
>
> (tud.83)

Daw ateb Llywelyn i gadarnhau'r un safbwynt ond mae'n gwneud pwynt pwysig ynglŷn â beth yw priodas. Er bod priodas i fod i uno gŵr a gwraig; er bod yr undod emosiynol yn ddiffygiol o bosib; mae pobl yn parhau i briodi ac i fodoli mewn priodasau nad ydynt yn gwbl ddelfrydol. Y peth da am briodas yw fod pobl yn ffyddlon i'w gilydd, heb wybod gyda sicrwydd a yw eu partneriaid yn eu caru nhw'n ôl i'r un graddau.

> LLYWELYN: Onid hynny yw priodas, ymglymu heb adnabod,
> Ymroi heb amddiffyn na gwybod i bwy na
> pha siawns?
>
> (tud.83)

Er bod Siwan a Llywelyn yn cytuno ar y safbwynt hwn, ac yn gweld yr holl bethau ofnadwy y maent wedi'u gwneud i'w gilydd, maent yn dod yn ôl at ei gilydd yn y pen draw. Drwy hyn mae Saunders Lewis yn dangos bod cydweithio a rhoi anghenion personol o'r neilltu, er mor anodd yw hynny weithiau, yn creu mwy o hapusrwydd na gweithredu'n hunanol. Gwelwn fod amgylchiadau llwyth, teulu a chenedl yn bwysicach nag amgylchiadau unigolion.

6.3 Bywyd personol a bywyd cyhoeddus

Gosodir yr angen am gyflawni swydd bwysig arweinydd gwlad ochr yn ochr â'r dyheadau a'r anghenion personol a phreifat. Amlygir y tyndra sydd rhwng y ddau beth trwy gyfrwng y ddrama. Mae Siwan yn teimlo baich bod yn fam, yn llysgennad ac yn wraig gyfrifol i arweinydd gwlad, ac yn dioddef am nad yw ei hanghenion personol yn cael eu diwallu. Rhoddir disgrifiad o fywyd Alis i ni er mwyn gweld pa mor wahanol yw bywyd Siwan yn hyn o beth. Mae ei phenderfyniad i fodloni ei hanghenion personol yn arwain at ddinistr amlwg.

Nid Siwan yn unig sy'n rhan o'r sefyllfa hon. Er i ni weld Llywelyn yn wladweinydd cyfrifol sy'n gweithredu er mwyn cosbi a chadw trefn yn Act I a II, deallwn hefyd ei fod wedi ei frifo'n bersonol gan odineb Siwan, a gwelwn ochr sensitif i'w gymeriad yn Act III. Mae'n cyfaddef bod ei deimladau wedi rheoli ei resymeg wrth iddo benderfynu crogi Gwilym, fel yr aeth teimladau Siwan yn drech na'i rhesymeg hi wrth gyflawni godineb.

Mae'n ddiddorol sylwi ar rôl Alis yn Act III wrth iddi gael Llywelyn i syweddoli beth yw'r gwirionedd am sefyllfa ei briodas â Siwan. Mae Llywelyn yn sylweddoli sut y mae'r bwlch a'r diffyg cyfathrebu rhyngddo ef a'i wraig wedi codi ar ôl gwrando ar eiriau Alis – roedd

yr angen iddo gyflawni ei waith fel arweinydd yn bwysicach:

> Alis: ... Mae rhyfel a chynghreirio a holl brysurdeb teyrnasu
> Yn gae o gwmpas tywysog, mae ei fawredd o ar wahan.
>
> (tud.71)

Dywed Alis fod gŵr fel plentyn cyntaf-anedig i wraig sydd newydd briodi. Wrth iddo ymhél â'r gwaith o reoli gwlad datblyga gagendor rhwng y ddau a dyna pryd y bydd gwraig yn mynd ar goll yn emosiynol – yn mynd ar 'ddisberod' (Alis, Act III).

6.4 Dewisiadau

Mae gan gymeriadau'r ddrama ddewisiadau i'w hwynebu. Dewis godinebu y mae Siwan a Gwilym yn hytrach na bod yn ffyddlon. Crogi Gwilym yw dewis Llywelyn yn hytrach na'i gosbi heb ei ladd. Mae Llywelyn a Siwan yn dewis dod yn ôl at ei gilydd ar ddiwedd y ddrama, er gwaethaf yr hyn fu rhyngddynt. Dengys y ddrama fod dewisiadau cyson yn ein hwynebu yn ein bywydau, a bod canlyniad i bob penderfyniad – weithiau mae'r canlyniad yn ddymunol, weithiau'n annymunol. Rhaid gwneud dewisiadau a wynebu'r canlyniadau, fel y dywed Llywelyn: 'Beth ond hapchwarae yw byw?' (Act III).

***Blodeuwedd* – drama Saunders Lewis**

Byddai darllen un o ddramâu eraill Saunders Lewis o fudd mawr wrth ddeall gwaith y dramodydd yn ehangach. Un ddrama y dylid ei hystyried cyn y gweddill yw *Blodeuwedd*. Defnyddia Saunders Lewis chwedl Blodeuwedd o'r Mabinogi yn sail i'w ddrama. Mae Gwydion, y dewin, yn creu merch o gig a gwaed i Lleu Llaw Gyffes trwy ddefnyddio blodau ac egnïoedd natur. Mae Lleu yn byw o dan dynged a osodwyd arno gan ei fam, sef na chaiff wraig o blith merched dynion.

Ceir tebygrwydd rhwng y ddwy ddrama mewn nifer o ffyrdd. Fel Siwan, mae Blodeuwedd yn godinebu â dyn sydd yn iau ac yn fwy diddorol na'i gŵr. Caiff y carwr ifanc ei ladd, neu ei ddienyddio, gan y gŵr. Mae Blodeuwedd yn chwilio am serch a chynnwrf rhamantus fel Siwan ac yn ymateb i'w hanghenion greddfol. Mae'r ddwy hefyd yn teimlo'n unig.

Gwelwn debygrwydd rhwng y geiriau y mae Siwan yn eu dweud wrth Gwilym cyn iddynt fynd i garu a geiriau Blodeuwedd wrth ei chariad, Gronw Pebr:

Siwan	Blodeuwedd
• 'Rwy'n fy rhoi fy hun iti am heno, Gwilym Brewys. • Heno mae ildio'n ddigon. • Yfory, pwy ŵyr? Efallai y'th garaf di yfory. • Fy rhodd iti yw heno. • Am dy fod di'n cofio blas pethau A bod bywyd ar antur mor frau; Am fod dy orfoledd yn fy ngallu A bod rhoi i ti d'orfoledd yn bêr. • 'Rwy'n rhoi i'm pum synnwyr heno ryddid i fod wrth eu bodd.	• ... Gyda mi Nid oes yn ddiogel ond y funud hon. • Mae'n cyrff ni yn ddihysbudd. O, fy Ngronw, Y gamp a fyddai diwreiddio'u cyfoeth oll, Dirgelwch y pum synnwyr wedi'u deffro,... • Mae dawn mewn serch i glymu cyrff ynghyd A rhyngddynt greu rhyw fywyd newydd, uwch.

Cymeriad o fyd chwedloniaeth yw Blodeuwedd sydd wedi'i chreu o egnïoedd byd natur lle na cheir cariad ysbrydol, dim ond y dyhead am serch. Mae rhywbeth hunanol ac anifeilaidd yn perthyn i gymeriad Blodeuwedd. Mae Siwan yn gymeriad gwahanol. Mae hi'n perthyn i'r byd hwn ac mae hi'n ddynes aeddfed sy'n deall beth yw cariad ysbrydol ac y dylid ymddwyn yn gywir o fewn priodas er lles pawb. Er bod yr ysfa ynddi i brofi serch corfforol a rhamantus gyda Gwilym, a bod yr awydd i odinebu'n un cryf iawn, mae hi hefyd yn deall bod hynny'n anghywir, yn anfoesol ac yn beryglus.

6.5 Gwrthdaro

Mae gwrthdaro'n elfen hanfodol mewn unrhyw waith dramatig. Yn y ddrama hon mae'r gwrthdaro'n digwydd ar fwy nag un lefel. Y gwrthdaro mwyaf amlwg yw'r gwrthdaro rhwng y cymeriadau.

Gwelwn wrthdaro o'r dechrau rhwng Siwan ac Alis, a gwelwn wrthdaro hefyd ar ddiwedd Act I wrth i Llywelyn ddarganfod Gwilym a Siwan yn yr ystafell wely. Mae'r gwrthdaro rhwng Gwilym a Llywelyn yn ddiddorol oherwydd bod tyndra o ganlyniad i'r un digwyddiad – y godinebu – ond mae'r ddau'n ymateb yn chwyrn am wahanol resymau. Mae Gwilym yn cyfaddef ei fod wedi gwneud cam â Llywelyn ac mae'n barod i dderbyn ei gosb. Ceisia amddiffyn ei hun a chynnig tir ac eiddo i Llywelyn i dalu iawn am ei gam. Camddealltwriaeth rhwng dau ddyn busnes yw hyn yng ngolwg Gwilym, ond i Llywelyn y mae'n fater llawer mwy dwys. Mae'r digwyddiad yn sarhad ar berthynas sy'n hollbwysig iddo, er nad yw Gwilym a Siwan yn deall hynny.

Nid yw Siwan ychwaith yn gallu deall fod hon yn drychineb emosiynol i Llywelyn. Yn wir, mae ei phwyslais hi ar ddadlau dros achub bywyd Gwilym am resymau gwleidyddol yn dangos ei bod wedi camddeall teimladau ei gŵr yn llwyr. Dadlau ar sail egwyddor y mae Siwan ac mae hyn yn dwysáu'r teimlad o sarhad y mae Llywelyn yn ei deimlo.

Gwelir gwrthdaro amlwg rhwng cymeriadau eto yn Act III. Yma ceir camddealltwriaeth a gwrthdaro rhwng person sy'n dadlau o safbwynt syniadau mewn dull rhesymegol, sef Siwan, a pherson sy'n ymateb mewn modd mwy emosiynol, sef Llywelyn. Wedi dweud hyn, gwelwn y sefyllfa'n troi wrth i Siwan ddangos emosiwn wrth leisio'i hatgasedd tuag at Llywelyn am grogi Gwilym a dwyn dirmyg ar eu cariad. Bryd hynny, mae agwedd Llywelyn yn llawer mwy pwyllog a rhesymegol wrth iddo ddweud y bu i Gwilym farw'n 'hardd'. Wrth gwrs, achos y gwrthdaro rhwng Siwan a Llywelyn yw'r camddealltwriaeth sylfaenol a'r diffyg cyfathrebu sydd rhyngddynt.

Yn ogystal â'r gwrthdaro amlwg sydd rhwng cymeriadau ceir gwrthdaro a thyndra mewnol ym meddyliau cymeriadau. Gwelir hyn mewn mwy nag un lle yn y ddrama. Mae'n glir bod Siwan yn cael ei thynnu rhwng ei dyhead i greu llinach frenhinol a bod yn dywysoges lwyddiannus, barchus a'i hangen greddfol i brofi serch a nwyd gyda Gwilym. Gwelwn hefyd fod Llywelyn wedi ei rwygo rhwng dau ddewis – crogi Gwilym oherwydd y sarhad neu beidio â'i grogi er mwyn diogelu Gwynedd. Y mae'r math hwn o wrthdaro mewnol yn arwain at benderfyniadau sydd â chanlyniadau trasig.

Gwelir gwrthdaro hefyd rhwng syniadau yn y ddrama. Gosodir syniadau am bethau sy'n perthyn i'r meddylfryd clasurol a'r meddylfryd rhamantaidd ochr yn ochr. Trafodir hyn yn yr adran *Gwerthoedd a themâu trasiedïau clasurol* isod.

7. Trasiedi dramatig

Datblygodd trasiedi dramatig ar hyd y canrifoedd ar ôl iddo ddod i'r amlwg yng nghyfnod cynnar Groeg yn y canrifoedd cyn Crist – y Cyfnod Clasurol. Ceir enghreifftiau gan ddramodwyr fel Aeschylus, Soffocles ac Ewripedes yn y bumed ganrif cyn Crist.

Yn y dramâu trasig gwreiddiol byddai'r arwr neu'r arwres yn gymeriad arbennig – yn frenin, yn frenhines neu'n berson o statws cymdeithasol uchel. Fel arfer byddai'r arwr yn cael ei hun mewn sefyllfa anodd lle byddai'n ymddangos fel petai'r byd o'i gwmpas a thynged yn ei yrru at ddinistr nad fyddai modd ei osgoi. Yn aml, nid bai'r arwr oedd ei fod yn wynebu argyfwng yn ei fywyd ond fe fyddai'n rhaid iddo wynebu a datrys y sefyllfa trwy ddioddef. Byddai'r cymeriad yn y pen draw yn arddangos parodrwydd i ddioddef ac i dderbyn pa bynnag gosb oedd yn rhaid mewn dull anrhydeddus, er budd pawb. Er enghraifft, yn y ddrama *Oedipws Frenin* cawn stori Oedipws, sydd yn frenin ar Thebai. Oherwydd tynged a osodwyd ar Oedipws pan gafodd ei eni, yn ddiarwybod i bawb (gan gynnwys ef ei hun), wrth ddod yn frenin mae yn lladd ei dad ac yn priodi ei fam. Mae Thebai yn dioddef o newyn a phla ac mae Oedipws yn datgan yn drahaus y bydd yn darganfod y rhesymau pam ac yn datrys y sefyllfa. Wrth iddo wneud hyn daw'n amlwg i bobl y ddinas bod Oedipws wedi lladd ei dad a phriodi ei fam a magu teulu gyda hi. Dealla Oedipws mai ef yw achos y drwg a bod rhaid iddo adfer y sefyllfa trwy ddioddef. Mae Oedipws yn tynnu ei lygaid ei hun ac yn cael ei ddiarddel o'r ddinas ar ôl i'w wraig gyflawni hunanladdiad. Mae'n dioddef yn anrhydeddus ac yn gwneud yr hyn sydd ei angen er mwyn achub y ddinas.

Mae trasiedïau mwy modern yn gweithio mewn dull ychydig yn wahanol. Yn lle bod ffactorau allanol yn arwain at argyfwng bydd y ffactorau allweddol yn deillio o rywbeth a berthyn i natur y prif gymeriad. Nid oes yn rhaid i'r cymeriad fod yn berson o statws uchel ond fe fydd ei bersonoliaeth yn ei arwain at wneud penderfyniadau a fydd yn ei osod mewn sefyllfa lle y bydd iddo ddioddef. Ni fydd cymeriad trasig fel hyn yn gallu rhwystro'i hun rhag gwneud dewisiadau a fydd yn arwain at ddinistr iddo ef, ac weithiau i'r bobl o'i gwmpas. O bryd i'w gilydd gyda thrasedïau modern, ni cheir catharsis amlwg na datrysiad clir ychwaith. Weithiau rhaid derbyn sefyllfa sydd yn amherffaith ar ddiwedd y ddrama ond ceir dealltwriaeth bellach neu well o ryw elfen o fywyd a'r cyflwr dynol.

Gallwn weld bod elfennau trasig modern a thraddodiadol yn rhan o gwymp cymeriadau'r ddrama *Siwan*.

Siwan fel cymeriad trasig

O ran elfennau trasiedi modern clywn Siwan yn cyfaddef yn Act I bod rhywbeth yn ei chyfansoddiad personol yn cael ei gyffroi gan Gwilym. Mae arni angen serch corfforol a rhamant â Gwilym ac mae'r dyhead ynddi yn rhy gryf i'w anwybyddu. Mae hi'n dilyn ei greddf ac yn godinebu, ac mae ei gweithredoedd yn arwain at ddinistr. Ar ddiwedd y ddrama mae'r cyfaddawd rhyngddi a'i gŵr yn amherffaith, er y gellir gweld bod datrysiad yn y ddrama hefyd a bod Gwynedd yn debygol o fod yn ddiogel.

Gellir dadlau bod Siwan hefyd yn ei chael ei hun mewn sefyllfa anffodus, fel cymeriadau trasiedïau mwy traddodiadol. Pe na bai hi wedi priodi Llywelyn, heb gael ei geni'n dywysoges, heb fynd i fyw ymhlith y Cymry, a fyddai ei anffyddlondeb yn creu cymaint o boen? Mae yma hefyd, fel gydag Oedipws a chymeriadau trasig eraill o'r dramâu Groegaidd cynnar, elfen o drahauster ynddi. Gallwn weld ei bod hi'n ystyried ei hun yn fwy soffistigedig na'r Cymry o'i chwmpas a'i bod yn meddwl ei bod yn deall beth yw teimladau ei gŵr ac yn penderfynu, heb ofyn iddo, nad ydyw'n ei charu hi. Mae hi hefyd

yn derbyn ei chosb mewn dull urddasol, a gwelwn ei pharodrwydd i ddioddef yn ystod ei charchariad ac yn ystod dienyddiad Gwilym. Synhwyrwn ei bod yn teimlo bod yn rhaid iddi gael ei chosbi.

Llywelyn a Gwilym fel cymeriadau trasig
Yn ogystal â hyn, gallwn weld elfennau trasig yn Llywelyn a Gwilym gan eu bod nhw hefyd yn dioddef. Mae Llywelyn, fel Siwan, mewn sefyllfa anffodus gan ei fod yn wrthrych priodas wleidyddol. Oherwydd ei bersonoliaeth, a'r gwahaniaeth oedran sydd rhyngddo a'i wraig, ni theimla mai priodol yw arddangos cariad a rhamant tuag ati. Mae Llywelyn yn peryglu'i deyrnas a'i hapusrwydd drwy ymateb gyda thrahauster i dwyll ei wraig.
Yr elfennau sydd yn rhan annatod o gymeriad Gwilym yw achos ei gwymp. Ni all wadu ei gariad tuag at Siwan ac ni all rwystro'i hun rhag godinebu â hi. Mae Gwilym yn hapchwarae ac yn byw bywyd peryglus ac anturus. Dylem gofio hefyd ei fod yn derbyn ei gosb gydag urddas a heb gwyno, sydd yn ofynnol mewn cymeriad trasig traddodiadol.

Gwerthoedd a themâu trasiedïau clasurol
Trasiedi glasurol yw *Siwan* ac ynddi ymdrinnir â'r pethau a gâi eu hystyried yn bwysig gan awduron clasurol. I awdur clasurol fel Saunders Lewis roedd cael cymdeithas â threfn amlwg ac ymddygiad priodol yn bwysig, yn enwedig ymhlith arweinwyr a brenhinoedd. Gwelir gwerth teulu, traddodiad ac etifeddiaeth yn y ddrama trwy ddangos beth fydd yn digwydd wrth beryglu pethau fel hyn. Sylfaen bywyd trefnus a hapus yw bod pobl yn ymwybodol o'u lle yn y gymdeithas ac yn ymddwyn yn foesol a chywir. Wrth edrych ar themâu'r ddrama, gwelwn eu bod yn rhai sy'n effeithio ar bobl yn dragwyddol, ac yn creu tyndra rhwng pobl yn rheolaidd. Dyma pam, efallai, fod yr hanes yn apelio cymaint atom. Mae'r tyndra mewnol sydd yn Siwan yn digwydd ymhlith pobl hyd heddiw – er nad ydynt efallai o statws brenhinol fel hi.

Plot y ddrama
Drama glasurol yw *Siwan* ac mae gan ddramâu o'r fath reolau pendant. Amlinellodd y Groegwr Aristotlys (384-322 C.C.) nifer o reolau y dylid cadw atynt wrth gyfansoddi drama glasurol. Dyfeisiodd dair rheol sydd yn effeithio ar sut y caiff plot ei strwythuro. Cânt eu hadnabod fel undodau dramatig:

- **Undod lleoliad**: *Ni ddylai lleoliad y ddrama newid yn ystod ei pherfformiad*. Gellir dadlau bod *Siwan* yn dilyn y rheol hon. Er i ni symud o'r ystafell wely frenhinol i ystafell y tŵr lle roedd Siwan yn garcharor, ac yna'n ôl, lleolir yr holl ddrama yn llys brenhinol Gwynedd.

- **Undod amser**: *Dylai'r ddrama ddigwydd mewn cyfnod o bedair awr ar hugain.* Mae hon yn rheol sy'n cael ei thorri gan nifer o ddramodwyr clasurol, fel *Siwan.* Mae'r ddrama hon yn datblygu dros ddau ddiwrnod i ddechrau, ond yna ceir blwyddyn union rhwng Calan Mai Act I a Chalan Mai Act III.

- **Undod digwydd**: *Dylai'r ddrama ymwneud ag un prif ddigwyddiad.* Canolbwynt *Siwan* yw'r godinebu â Gwilym.

Bydd trasiedïau clasurol Groeg hefyd yn cael eu perfformio mewn tair act fel rheol, a phlot tair act a geir yn *Siwan*.

Act I – *Gosodir y sefyllfa a'r cymeriadau yn eu cyd-destun*.
Deallwn pwy yw Siwan, Gwilym a Llywelyn a deallwn yr hanes y tu ôl i'w cymeriadau. Sylweddolwn fod y berthynas rhwng Siwan a Gwilym yn odinebus ac amlygir y peryglon

sydd i'r ddau drwy weithredu yn y modd hwn.

Act II – *Pwrpas yr ail act yw rhoi profiad ysgytwol i'r prif gymeriad a fydd yn newid ei fywyd a'i fyd.*
Mae trefn naturiol a diogel bywyd y cymeriadau, a'r gymdeithas o'u cwmpas, yn cael ei chwalu. Fe gofiwn i Siwan holi Alis fwy nag unwaith a oedd newid i ddod i'w bywyd yn Act II: ''All heddiw newid fy myd?'. Crogir Gwilym, teflir Siwan i argyfwng emosiynol, a chaiff Gwynedd ac etifeddiaeth Dafydd eu rhoi yn y fantol.

Act III – *Dylai'r drydedd act arwain at ddatrys yr argyfwng – dylai'r cymeriadau a'r gymdeithas o'u cwmpas fod mewn sefyllfa well a diogelach a dylai'r prif gymeriad fod yn berson gwell.*
I raddau, mae hyn yn digwydd wrth i Siwan ddod i ddeall teimladau ei gŵr yn well, ac ymddengys bod sylfaen gryfach i'w priodas erbyn hyn oherwydd hynny. Ymddengys y bydd Gwynedd unwaith eto'n gryf a diogel hefyd, o ganlyniad i gynllunio doeth Siwan. Serch hynny, mae elfen o gyfaddawdu yn yr act hon a wna i ni deimlo fymryn yn anesmwyth. Ni cheir diweddglo cwbl hapus felly.

Catharsis
Elfen bwysig mewn trasiedi glasurol yw'r ymdeimlad o gatharsis ar ddiwedd y ddrama – dylai'r gynulleidfa deimlo rhyddhad ar ôl cyd-brofi digwyddiadau'r ddrama gyda'r cymeriadau. Dylem deimlo'n well wedi holl dyndra a chynnwrf y ddrama.

Yn *Siwan,* ni ellir gwadu i ysgafnder ac ychydig o chwerthin gael ei gyflwyno tuag at y diwedd, a bod pethau'n ymddangos yn well i'r cymeriadau. Fodd bynnag, teimlwn ryw fath o siom mai cyfaddawd anesmwyth a geir rhwng Siwan a Llywelyn, ac er bod Gwynedd yn fwy diogel erbyn hyn, mae elfen o ansicrwydd yn dal i fod yno – mae'n rhaid i gynllun Siwan weithio ac i Llywelyn sicrhau ei fod yn hawlio'r deyrnas. Yn ogystal â hyn, er bod y prif gymeriadau'n deall ei gilydd yn well erbyn hyn, teimlwn nad ydyn nhw'n gwbl hapus â'r sefyllfa, h.y. ni all Siwan fod yn gwbl rhydd na dilyn ei greddfau nwydus, ac mae hi a Llywelyn yn cytuno nad yw hi'n bosib i ŵr a gwraig fyth adnabod na deall ei gilydd yn llwyr.

Mewn trasiedi Roegaidd ceir elfen o ryddhad, o ddysgu ac o symud ymlaen – mae hyn yn wir am y ddrama hon. Mae'r cymeriadau mewn trasiedi draddodiadol fel arfer yn gaeth i'w tynged hefyd. Ni all Siwan ddianc rhag y ffaith mai bywyd tywysoges a'r holl broblemau sy'n cyd-fynd â hynny sydd ganddi. Mae hi'n derbyn ei thynged ac yn dewis mynd yn ôl at Llywelyn: 'Mae arfer chwarter canrif yn fy nhynnu i 'nôl' (Siwan, Act III).

Ceir elfen o ddysgu a symud ymlaen mewn trasiedi, ond pwysleisir bod rhai pethau na ellir eu hosgoi mewn bywyd. Nid yw Siwan yn gwadu hynny:

SIWAN: 'Does neb ar y ddaear yma'n deall ei gilydd;
Y gŵr sy'n cofleidio'r wraig a'r wraig sy'n
ateb â'i chusan,
Dwy blaned sy'n rhwym i'w cylchau; 'chlywan
nhw mo'i gilydd fyth.

(tud.83)

Adeiladwaith
Mae plot y ddrama hon yn dilyn rheolau drama glasurol ar y cyfan felly. Yn Act I gwelwn ysgrifennu celfydd wrth i Saunders Lewis gynyddu'r tyndra'n ofalus, cyn cyrraedd

uchafbwynt pan ddaw Llywelyn i'r ystafell wely, a'r ddadl enfawr a ddaw yn sgil hynny. Ceir adeiladu graddol at uchafbwynt y crogi yn Act II. Act dawelach a myfyrgar ei natur yw Act III – mae'r adeiladu at uchafbwynt yn gynnil a llai ysgytwol yma. Yr uchafbwynt, wrth gwrs, yw'r cyfamod anesmwyth rhwng Siwan a Llywelyn.

Dylanwad dramâu trasig Ffrainc

Er bod dylanwad dramâu trasig Groeg yn amlwg ar waith dramatig Saunders Lewis mae ef ei hun yn nodi bod dramodwyr Ffrainc yn yr ail ganrif ar bymtheg hefyd wedi dylanwadu'n fawr arno wrth gyfansoddi. Yng ngwaith y dramodwyr hyn, megis Jean Racine (1639-1699) a Pierre Corneille (1606-1684), ymdrinnir â themâu clasurol, ac yn aml rhoddir sylw i'r tyndra sy'n bodoli rhwng nwyd neu emosiwn a meddwl yn rhesymegol. Yn y dramâu hyn mae emosiwn a nwyd yn arwain at ddinistr, a rhesymeg yn creu sefydlogrwydd a diogelwch.

Gwelir tebygrwydd rhwng un o gymeriadau Racine, sef Phèdre, a Siwan yn nrama Saunders Lewis. Seilir Phèdre yn nrama Racine ar y cymeriad o'r un enw ym mytholeg Groeg. Mae Phèdre yn wraig briod aeddfed sydd yn ceisio ymdopi yn emosiynol â dyheadau nwydus tuag at ŵr ifanc sydd hefyd yn fab i'w gŵr o briodas gynharach. Mae nwyd Phèdre yn arwain at farwolaeth a thristwch a gwelir bod ei hemosiwn yn mynd yn drech na'i rheswm ac yn troi'n obsesiwn. Bron nad yw serch yn afiechyd meddyliol na fedr hi ei reoli. Gwelir cyffyrddiadau o hyn yn Act I pan sonia Siwan am bethau y mae Gwilym yn eu deffro ynddi sydd yn ddychryn iddi – pethau sydd yn gwneud "bywyd yn bêr" (Gwilym, Act I) ond sydd ar yr un pryd yn gwneud "bywyd yn chwerw" (Siwan, Act I).

Dylem hefyd gofio bod Saunders Lewis yn gallu siarad Ffrangeg a'i fod wedi gallu gwerthfawrogi effaith lawn barddoniaeth y dramodwyr hyn. Gwelwn ei fod wedi defnyddio barddoniaeth yn yr un modd yn ei weithiau dramatig ei hun.

8. Arddull y ddrama

Drama farddonol/fydryddol
Barddoniaeth benrydd sydd yma. Mae arddull farddonol yn caniatáu i'r dramodydd leoli'r digwydd mewn cyfnod hanesyddol – mae'n addas i gyfleu'r iaith fyddai'n cael ei chlywed rhwng aelodau o deulu tywysog Gwynedd yn y drydedd ganrif ar ddeg.

Pwrpas drama glasurol yw archwilio sefyllfa cymeriadau o statws cymdeithasol uchel ond sy'n wynebu problemau emosiynol dwys. Mae barddoniaeth yn gyfrwng addas i wneud hyn. Wedi dweud hynny, nid yw arddull y ddrama'n rhy addurniedig gan y byddai hynny'n rhwystro'r cymeriadau rhag cyfathrebu mewn dull sy'n gredadwy mewn deialog.

Pan fydd y sefyllfa'n galw mae'r iaith yn farddonol iawn. Pan welwn y cymeriadau'n mynegi teimladau cryf neu'n ymateb i sefyllfa sy'n llawn tyndra a gwrthdaro, cawn fwy o elfennau barddonol nag y cawn mewn sefyllfaoedd mwy hamddenol, neu lle mae'r iaith yn symud naratif y stori yn ei flaen.

Ar y cyfan gallwn synhwyro gwahaniaeth yn iaith Alis, o'i gymharu â iaith y cymeriadau eraill sy'n bobl fonheddig. Er bod iaith Alis yn farddonol ei naws mae hi'n defnyddio brawddegau symlach sydd yn debycach i iaith lafar ddyddiol. Mae patrwm brawddegol ei llinellau yn fwy cyffredin ac yn llai barddonllyd. Wedi dweud hynny, mae hi'n defnyddio iaith goeth ar brydiau. Wrth ramantu am noson y dathlu ar ddechrau'r ddrama, mae ei hiaith yn fwy barddonol ei naws – fe gofiwn iddi ddisgrifio'r lleuad fel 'lantern fawr'. Bydd ei chyffelybiaethau a'i geirfa'n llai uchel-ael ac mae tueddiad ynddi i gyfeirio at bethau mwy gwerinol:

> 'Fe chwipiodd rhaff y grog fel **gwialen bysgota**...'
>
> ''Rwan mae'r corff fel **boncyff pren** yn siglo
> Wrth ei ddirwyn gan **graen**;'
>
> (tud.67)

Ymarfer
Isod, mae araith fawr Llywelyn yn Act III wedi ei hysgrifennu mewn iaith sydd yn debycach i'n hiaith bob dydd ni heddiw. Darllenwch y darn ac yna ewch yn syth yn ôl i ddarllen yr araith wreiddiol. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddarn, gan gofio mai'r un neges sydd yn y ddau? Oes rhywbeth yn cael ei golli yn un o'r darnau? Pa un sy'n creu'r argraff fwyaf arnom? Pam mae Saunders Lewis wedi dewis ysgrifennu mewn barddoniaeth? Pa un sydd fwyaf dramatig?

> *LLYWELYN: Arglwyddes, doedd ein priodas ni'n ddim byd ond gwleidyddiaeth ac roedd gwahaniaeth o bum mlynedd ar hugain rhyngom ni o ran oed. Wel, mae hynny'n digwydd yn aml i bobl fel ni, dioddef ac adeiladu gyda'n gilydd wrth i ni greu cytundeb rhwng gwledydd.*
>
> *Ond pan ddest ti yma i Eryri yn wyryf ifanc, hardd, roeddwn i wedi fy syfrdanu. Ond ddywedais i ddim byd am fy nheimladau, doeddwn i ddim eisiau rhoi braw i ti gyda chusanau trwsgl a chofleidiau chwyslyd. Rheolais f'emosiynau ac roeddwn i'n araf, yn gwrtais ac yn ffurfiol gyda thi. Doeddwn i ddim eisiau i ti fy ngweld i'n ffiaidd.*
>
> *Stopiodd dy nerfusrwydd a thyfodd dy hyder, ac roeddwn i'n teimlo fel petaet ti'n*

gallu fy nioddef i o gwmpas y lle yn y cefndir. Addolais i ti o bell, heb ddweud bron dim. Stopiais fy hun rhag dweud geiriau cariadus a thynnais i ti i mewn i fy mywyd trwy ddilyn dy gyngor wrth drefnu fy nheulu a'r deyrnas. Rhoddais bob cyfle i ti ddefnyddio dy ymennydd gwych.

Dw i'n cofio pan ddest ti adre ar ôl i ti berswadio dy dad i dynnu'n ôl rhag ymosod ymhellach arnom. Roeddet ti'n bymtheg oed a newydd gael Dafydd ddeufis ynghynt. Dest ti adre wedi achub fy mywyd a sicrhau llwyddiant tywysogaeth Dafydd. Y noson honno ***ti*** *wnaeth fy nghofleidio i a doeddwn i ddim yn gallu siarad oherwydd 'mod i mor hapus. Cedwais reolaeth arnaf i fy hun; –*

Ar ôl y noson honno roeddwn i'n llwyddiannus yn erbyn fy ngelynion, cymerais diroedd Ceredigion, Powys a Deheubarth yn rhan o'r deyrnas, a hynny i gyd i Dafydd yn unig. Roedd hyn yn erbyn ein traddodiad ni'r Cymry, ac er i mi ddigio fy nheulu, mynnais fod Dafydd a'i ach bur yn cael ei gydnabod gan frenin Lloegr a'r Pab.

Gwnes i hyn i gyd er mwyn dangos cymaint oeddwn i'n dy garu di.

Mae sawl esiampl lle mae emosiwn dwys yn cael ei gyfleu drwy farddoniaeth y ddrama. Nid pethau dibwys sy'n cael sylw yn y ddrama, ac felly, i glasurwr fel Saunders Lewis, nid yw iaith bob dydd yn ddigon pwerus i ymdrin â'r fath faterion.

Os edrychwn ar y rhannau lle mae'r teimladau'n gryf oherwydd serch, rhamant, ofn, dicter neu dristwch, gallwn weld sut mae cryfder iaith farddonol yn dod i'r amlwg.

Ymarfer
Edrychwch eto ar yr awgrymiadau isod a cheisiwch benderfynu i ba raddau mae barddoniaeth yn cael effaith yn y sefyllfaoedd hyn:

Act I	• Siwan a Gwilym yn dechrau mynegi teimladau rhamantus tuag at ei gilydd.
	• Llywelyn a Gwilym yn dadlau â'i gilydd a gwrthdaro yn amlwg.
	• Siwan yn ceisio tawelu Llywelyn yn ei ddicter a'i dymer wyllt – er mwyn achub bywyd Gwilym ac arbed y deyrnas rhag perygl.
Act II	• Siwan yn myfyrio ar natur unigedd wedi iddi fod yn y gell am amser. Oni bai fod Alis a Siwan yn cynnal mymryn o ddeialog yma, buasai'n bosibl dadlau fod llinellau Siwan yn sefyll ar eu pennau eu hunain bron – fel cerdd annibynnol am unigedd ac ofn. Mae ei digalondid yn glir yma.
	• Alis yn disgrifio golygfa'r crogi i Siwan a hithau'n dioddef wrth glywed am farwolaeth ei chariad.
	• Geiriau Alis ar ôl marwolaeth Gwilym. Er mai is-gymeriad yw Alis, rhaid nodi bod Saunders Lewis wedi rhoi geiriau barddonol a phwerus iddi i gyfleu tristwch yr holl sefyllfa.

Act III	• Y llinellau sydd y tu allan i'r cynllunio gwleidyddol am ddyfodol y deyrnas. Mae'r llinellau hyn yn ymwneud â theimladau Siwan a Llywelyn wrth iddynt ddod i ddealltwriaeth. Mae dicter Siwan ynglŷn â dienyddiad Gwilym yn amlwg ar y dechrau. Gwelwn hefyd ei syndod wrth ddeall cymaint y mae Llywelyn yn ei charu, a'r tristwch o ystyried y farwolaeth anochel a'i theimlad o unigedd eto. Yn Llywelyn, gwelwn yr ochr ddynol, emosiynol sydd y tu hwnt i'r arweinydd gwlad a welwn fel arfer. Mae'r tristwch a'r boen yn eglur. Gwelwn ddyn yn agor ei galon i'w wraig ac yn chwilio am faddeuant.

Rhythm llinellau a brawddegau

Mae hyd llinellau yn newid wrth i sefyllfa'r ddrama newid. Pan welwn Alis yn rhamantu am noson dathlu'r dyweddiad, neu Siwan a Gwilym yn agosáu cyn i Llywelyn eu darganfod, mae hyd y llinellau'n tueddu i fod yn weddol hir er mwyn cynnal teimlad neu egluro teimladau. Maent yn llifo'n braf. Gallwn hefyd edrych ar sefyllfaoedd gwahanol eu naws – er enghraifft, pan gaiff Alis lond ceg a bonclust gan Siwan, neu pan adeilada'r tyndra'n wrth i ni ddeall bod Llywelyn ar fin ddod i'r trwy ddrws yr ystafell wely'n ddisymwth, neu wrth i Siwan a'i gŵr weiddi ar ei gilydd. Yn y golygfeydd hyn ceir llinellau a brawddegau byrrach, neu hyd yn oed eiriau unigol weithiau. Mae'r rhain yn fwy effeithiol wrth gyfleu tymer, gwrthdaro, penbleth a phanig.

Cymharwch:	Gyda:
Act I – Siwan wrth iddi edmygu Gwilym. Siwan: Am dy fod di'n cofio blas pethau A bod blas yn darfod mor fuan; Am iti chwerthin ar berigl A bod bywyd ar antur mor frau; Am fod dy orfoledd di yn fy ngallu A bod rhoi i ti d'orfoledd yn bêr. Am ei bod hi'n awr yn Galan Mai. **7 llinell / 2 frawddeg**	Act I – Siwan a Gwilym yn dechrau cyffroi Siwan: 'Dyw'r milwyr wrth newid eu tro ddim yn agor y ddôr. Mae rhywbeth ar droed. Mi glywa' i ddynion yn rhedeg. Sbïa! Dacw ffaglau'n symud a'r cwrt yn llawn o gysgodion. Gwilym: Tybed? Tybed? **7 llinell / 7 brawddeg neu air unigol**

Cyffelybiaeth

Techneg syml ac effeithiol iawn yw cyffelybiaeth i ddisgrifio a chreu delwedd. Gallant fod yn gymariaethau positif neu negyddol, ac fel gydag ansoddeiriau, mae Saunders Lewis yn eu defnyddio'n ofalus. Dyma rai o'r enghreifftiau mwyaf amlwg:

Act II	SIWAN: Mae'r gadwyn yma'n Fy nghlymu i wrth y mur **fel** arthes wrth bost. Wrth iddi drafod ei sefyllfa hi ei hun yn y gell. Mae Saunders Lewis yn ofalus iawn wrth greu'r gyffelybiaeth. Wrth feddwl am faetio eirth, gallwn weld bod y gair yn awgrymu dau beth: • ei bod hi'n fygythiad fel arthes wedi ei chlymu wrth bostyn – cadwch draw • ei bod hi ar fin cael ei lladd fel mewn baetio eirth, yn aros i'r cŵn ymosod arni – yn wynebu marwolaeth greulon
Act II	ALIS: Mae o mor ifanc hefyd, yn tasgu llawenydd O'i gwmpas **fel** ffynnon yn byrlymu o chwerthin; Wrth iddi ddisgrifio Gwilym yn mynd i'w grogi. Mae "tasgu" yn ferfenw effeithiol yma ac mae trosiad yn rhan o'r disgrifiad: "byrlymu o chwerthin".
Act II	ALIS: Fe chwipiodd rhaff y grog **fel** gwialen bysgota, Wrth iddi ddarlunio crogi Gwilym i Siwan.
Act II	ALIS: 'Rŵan mae'r corff fel boncyff pren yn siglo Wrth ei ddirwyn gan graen. Rhywbeth cryf a chadarn yw boncyff ond gellir ei reoli a'i symud gyda chraen. Ai cyfeirio at y ffaith nad oes gan y corff bŵer bellach y mae Alis?

Mae'n ddiddorol mai gan Alis y ceir y rhan fwyaf o gyffelybiaethau'r ddrama. Ceir hefyd ambell i gymhariaeth yn y ddrama, er enghraifft, cymherir Siwan â Helen o Droea, a chymherir wynebau'r dyrfa sy'n gwylio dienyddiad Gwilym â wynebau'r bobl sydd mewn darlun yn Eglwys Gadeiriol Bangor o Ddydd y Farn.

Trosiadau

Defnyddir trosiadau yn ofalus ac yn bwrpasol yn y ddrama hefyd.

Act II	ALIS: Gwahanglwyf yw poen, Ffau o dywyllwch 'Does neb erioed a gydymdeimlodd â phoen. Wrth iddi ymateb i grogi Gwilym.
Act II	SIWAN: O waelod uffern fy enaid, fy melltith arnat, Llywelyn. Wrth iddi ddangos ei hatgasedd tuag at Llywelyn. Ai'r uffern sydd wedi ei chreu gan y sefyllfa, neu oherwydd marwolaeth Gwilym?

Act III	LLYWELYN: Felly'r addolais i di, fy fflam, ... Yn ei araith fawr. Mae 'fflam' yn awgrymu llawer o bethau: gwres, egni, goleuni, rhywbeth sydd yn puro ac yn glanhau, rhywbeth dinistriol, brawychus neu boenus. Mae'n gallu cael ei gysylltu â nwyd a serch.
Act III	LLYWELYN: Hyn oll a bensaernïais, fy nheml ydoedd i ti, F'addoliad i ti – Yn ei araith fawr. Mae 'teml' yn awgrymu pethau fel trefn, cadernid, mawredd, harddwch, pwrpas ac ati. Mae'n air y byddem yn disgwyl ei weld yn cael ei gysylltu â chariad mewn darn o lenyddiaeth glasurol, ond a yw'n air y byddem yn disgwyl i Llywelyn ei ddefnyddio?
Act III	LLYWELYN: Fi yw'r tân sy'n dy grino a'th ladd di, Pan mae Llywelyn a Siwan yn dod i ddealltwriaeth cyn diwedd y ddrama. Mae Llywelyn yn glir – tân dinistriol sydd yma.

Mae Saunders Lewis yn addurno iaith y ddrama gyda nodweddion fel:

Cyflythrennu

'(... dy flas di...) ... sy'n boen ac yn bêr.'	Gwilym, Act I
'Mae ei siom ef yn ddwysach na'i ddig.'	Alis, Act II

Odlau mewnol

'las y blas ar daflod y genau'n llawn.'	Gwilym, Act I
Trwy chwarae â sillafiad geiriau: ''Roedd mynydde'r blynydde rhyngom,'	Llywelyn, Act III

Cyffyrddiadau cynganeddol

'(Rhodd) enbyd yw **b**ywyd i **b**awb'	Llywelyn, Act III

Arddull ddiarhebol/wirebol

Mae Saunders Lewis yn creu dywediadau bachog, diarhebol yn ystod y ddrama sy'n gwneud i ni feddwl yn fwy dwys am sefyllfa'r cymeriadau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn digwydd yn yr act olaf, pan mae Llywelyn yn myfyrio ar wirionedd y sefyllfa, gydag Alis i ddechrau, ac yna Siwan. Dyma ambell esiampl:

Act III, Llywelyn:

- Seremoni yw byw i deulu brenhinol.
- Dechrau 'nabod ei gilydd mae pob gŵr a gwraig,
  Boed bythefnos neu ugain mlynedd.

- Rhodd enbyd yw bywyd i bawb.
- Y gair nad yw'n fwriad yw allwedd y galon.
- Beth ond hapchwarae yw byw?

Act III, Siwan:

- 'Does neb ar y ddaear yma'n deall ei gilydd;

Act III, Alis:

- Greddf mam yw gwraidd pob cariad,

Ymarfer

Chwiliwch am esiamplau eraill yn y testun ac ystyriwch beth yw bwriad y dramodydd wrth eu defnyddio.

Drama radio

Ysgrifennwyd *Siwan* fel drama ar gyfer y radio yn wreiddiol ac fe'i darlledwyd gan y BBC ar Fawrth y cyntaf, 1954. Perfformiwyd hi ar lwyfan gan Gwmni Garthewin yn ystod haf 1954. Er iddi wneud drama lwyfan lwyddiannus iawn, fel drama i'w chlywed, nid ei gweld, y bwriadwyd hi. Gellid dadlau mai cerdd ddramatig yw *Siwan* a chyfeiria Saunders Lewis ati fel cerdd mewn ambell le, gan gynnwys yn nheitl y gyfrol y mae hi'n rhan ohoni, wrth gwrs – *Siwan a Cherddi Eraill*. Oherwydd mai ar gyfer y radio yr ysgrifennwyd hi, bu'r farddoniaeth gelfydd a'r iaith goeth yn gymorth mawr i wrandawyr ddeall holl ddwyster emosiynol a dramatig y gwaith. Ceir delweddau byw trwy'r farddoniaeth, sydd yn darlunio'r digwyddiadau dramatig ochr yn ochr â'r dwyster dramatig. Serch hynny, dywed rhai fod ambell beth yn eu taro'n chwithig, er enghraifft, mae Llywelyn yn darganfod Siwan a Gwilym yn caru eiliadau ar ôl iddynt gyrraedd y gwely. Mae hi'n ddrama eiriol lle nad oes llawer yn digwydd ar lwyfan yn aml, ac mae hyn yn her ychwanegol i gyfarwyddwyr ac actorion wrth geisio llwyfannu perfformiad ohoni.

9. Yr arholiad

Mae adrannau gwahanol y nodiadau hyn wedi'u cynllunio er mwyn i chi allu ystyried gwahanol elfennau'r ddrama ar wahân. I grynhoi felly, ceisiwch fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- stori'r ddrama – yr hyn sydd yn digwydd yn y ddrama;
- cyfeiriadaeth yn y ddrama, fel y cyfeirio at chwedl Trystan ac Esyllt, Calan Mai a.y.b.;
- hanes y cymeriadau, e.e. pwy oedd y Siwan go iawn;
- cymeriadau'r ddrama – eu sefyllfa, eu natur, eu cymhelliant, eu datblygiad, yr hyn maen nhw'n ei gynrychioli yn y ddrama; ym mha ffordd y maen nhw'n gymeriadau trasig;
- elfennau trasig y ddrama – sut mae dehongli'r cymeriadau'n rhai trasig;
- crefft farddonol y ddrama – effeithiolrwydd; sut y mae'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o emosiwn y ddrama; sut y mae'n ychwanegu at greu tyndra a gwrthdaro; pam fod barddoniaeth wedi cael ei defnyddio yn lle rhyddiaith; ym mha ffordd y mae rhythmau ac odlau'n gweithio er mwyn cyfleu teimlad neu dyndra, a hyd yn oed gwahanol gymeriadau;
- y darlun a geir yn y ddrama o gymdeithas y cyfnod;
- y darlun a geir o gymeriadau benywaidd yn y ddrama;
- cymharu'r ddrama â thestunau llenyddol a llunyddol eraill;
- beth yw'r her o lwyfannu drama fel hon;
- y dyfyniadau a geir yn y canllaw astudio hwn – dyfalwch sut y byddech chi'n ymateb petai rhywun yn gofyn i chi gynnig sylwadau ar arwyddocâd y geiriau yng nghyd-destun datblygiad y ddrama neu un o'r cymeriadau. A oes dyfyniadau ychwanegol i'r rhai yn y nodiadau hyn y dylech chi feddwl amdanyn nhw?

Cofiwch hefyd baratoi ac ymarfer y math o iaith a phatrymau trafod sydd eu hangen arnoch i greu argraff ac i gydweithio ag eraill yn eich grŵp arholiad.

PWYSIG – wrth ddarllen y canllaw astudio hwn mae'n bosib y byddwch chi a/neu eich athro'n anghytuno â dehongliadau'r awdur. Mae hyn i'w ddisgwyl ac i'w annog. Ceisiwch ddarllen yn ehangach trwy ofyn i'ch athro am awgrymiadau am lyfrau a.y.b. lle mae beirniaid llenyddol yn cynnig eu dehongliad nhw o'r gwaith (gweler *Darllen Pellach*). Gwrandewch ar ddehongliadau eraill wrth drafod. Yn y diwedd, cyhyd â'ch bod yn mynegi eich barn yn glir ac yn cefnogi eich barn â rhesymau cadarn a gwybodaeth eang o'r ddrama, byddwch yn gwneud yr hyn sydd ei angen wrth drafod y ddrama fawr hon. Pob lwc.

10. Atodiad: dyfyniadau

Gwelir llawer o ddyfyniadau yn y nodiadau hyn y gallech eu dysgu er mwyn eu defnyddio wrth drafod, ac i gefnogi'ch dadleuon. Yn yr adran isod ceir detholiad o ddyfyniadau pellach. Cyn eu defnyddio, dylech fod yn ymwybodol o'u cyd-destun a'u lleoliad yn y ddrama, felly ewch yn ôl at y testun er mwyn deall beth yw eu harwyddocâd. Cofiwch fod y ddrama'n llawn llinellau da i'w dysgu fel dyfyniadau, a byddai o fudd i chi ddarganfod rhai eich hun yn ogystal.

Efallai y byddwch chi yn gweld arwyddocâd arall yn y dyfyniadau isod. Does dim o'i le ar hynny.

Act I

Dyfyniad	Gan bwy wrth bwy	Tudalen	Arwyddocâd
1. Llywyddu o'r gadair oedd fy ngwaith i heno	**Siwan** ➔ Alis	35	Cyfrifoldeb yn pwyso'n drwm ar Siwan – rhan o'i sefyllfa drasig.
2. Dafydd y rhois i 'mywyd i euro'i deyrnas;	**Siwan** ➔ Alis	35	
3. … Bu'r goron yn flinder ar fy mhen;	**Siwan** ➔ Alis	35	
4. Rhoddais fy nghroth i wleidyddiaeth fel pob merch brenin.	**Siwan** ➔ Alis	37	
5. Mi hoffwn ddal mab fy mab, etifedd Llywelyn Uwchben bedyddfaen yn goron ar waith fy oes.	**Siwan** ➔ Gwilym	39	Golwg ar uchelgais Siwan a'i dyheadau gwleidyddol. Eironi dramatig yma hefyd.
6. Mi ymdeflais i waith gŵr ac i waith fy ngŵr	**Siwan** ➔ Gwilym	40	Unigedd Siwan.
7. Cystal iti ddweud fod Llywelyn yn fy ngharu i fel ti	**Siwan** ➔ Gwilym	41	Diffyg adnabyddiaeth rhwng gŵr a gwraig.
8. … mae ynof i fy hun Bethau 'r wyt ti'n eu deffro sy'n ddychryn imi.	**Siwan** ➔ Gwilym	42	Cymeriad Siwan ac achos ei thranc.
9. Am fy mod i yma'n alltud a'm hunig werth yw fy ngwerth i gynnydd gwlad.	**Siwan** ➔ Gwilym	42	Sefyllfa drasig Siwan a'i hunigedd.
10. Mi rown fy nheyrnas i gyd am y noson hon gyda thi.	**Gwilym** ➔ Siwan	44	Eironi dramatig.
11. Gall tywysog a gwladweinydd deimlo fel dyn.	**Siwan** ➔ Gwilym	46	
12. … heno i mi yw byth,	**Gwilym** ➔ Siwan	46	
13. Dyma'r talu'n ôl, gwneud putain o Dywysoges Aberffraw A minnau'n gwcwallt i greu sbri yn llysoedd y Ffranc.	**Llywelyn** ➔ Gwilym	51	Atgasedd Llywelyn. Dangos y sarhad a achoswyd yn ei olwg. Coegni sur.
14. *Ma dame*, nid cyngor sydd yma, Ond brad, aflendid, halogiad fy ngwely a'm gwraig.	**Llywelyn** ➔ Siwan	52	
15. *Ma dame*, mae dy ofal amdana' i heno'n eglur.	**Llywelyn** ➔ Siwan	53	
16. Mae'r peth fel twrnameint yn rhan o fywyd iarll.	**Gwilym** ➔ Llywelyn	51	Persbectif Gwilym – gwahanol i Llywelyn.

Act II

Dyfyniad	Gan bwy wrth bwy	Tudalen	Arwyddocâd
17. 'Feiddi di mo'i ladd ef.	**Siwan** ➔ Llywelyn	54	Eironi dramatig a thrahauster Siwan.
18. … Mae'r gadwyn yn drom, Alis…	**Siwan** ➔ Alis	55	Gwrthgyferbyniad â rhif 3 uchod.
19. 'All heddiw newid fy myd?	**Siwan** ➔ Alis	55	Eironi dramatig.
20. Mae unigrwydd carchar yn wahanol.	**Siwan** ➔ Alis	56	Unigedd, ond gwahanol i'w hunigedd arferol.
21. Syrthia'i ddim mewn llewyg na gweiddi na gollwng deigryn.	**Siwan** wrth i Wilym gael ei grogi.	63	Cadernid cymeriad Siwan a'r angen mewn drama glasurol i'r prif gymeriad dderbyn cosb haeddiannol.
22. … yn tasgu llawenydd O'i gwmpas fel ffynnon yn byrlymu o chwerthin;	**Alis** ➔ Siwan	63	Cymeriad Gwilym yn cael ei ddisgrifio. Yn 22, 24 a 25 mae Gwilym hefyd i'w weld yn derbyn ei gosb yn ddi-gŵyn – angenrheidiol mewn drama glasurol.
23. Sant Ffransis a garai'r bleiddiaid, gweddïa dros fy mlaidd	**Siwan** yn gofyn i Sant Ffransis weddïo dros Gwilym.	64	
24. A Gwilym Brewys lartsh yn ei dywys i'r grog.	**Alis** yn union cyn y crogi.	66	
25. Mae ganddo air i bob un, maen nhw i gyd yn chwerthin…	**Alis** yn union cyn y crogi.	67	
26. Gwahanglwyf yw poen…	**Alis** ➔ Siwan wedi'r crogi.	68	Arddull ddiarhebol/wirebol. Aeddfedrwydd a dwyster Alis.
27. Does neb erioed a gydymdeimlodd â phoen.	**Alis** ➔ Siwan wedi'r crogi.	68	
28. Feiddiwn i ddim, ai e? Feiddiwn i ddim?	**Llywelyn** ➔ Siwan wedi'r crogi.	68	Allweddol i'r plot. Atgasedd Llywelyn.
29. O waelod uffern fy enaid, fy melltith arnat, Llywelyn.	**Siwan** ➔ Llywelyn wedi'r crogi.	68	Arwydd o ddwyster yr atgasedd a'r diffyg adnabyddiaeth rhwng gŵr a gwraig.

Act III

Dyfyniad	Gan bwy wrth bwy	Tudalen	Arwyddocâd
30. Neilltuaeth, nid carchar.	**Llywelyn** ➔ Alis	69	Persbectif Llywelyn ac Alis yn wahanol yma.
31. Do, syr, fe gafodd bopeth ond ei rhyddid.	**Alis** ➔ Llywelyn	69	
32. Seremoni yw byw i deulu brenhinol.	**Alis** ➔ Llywelyn	69	Arddull ddiarhebol/wirebol. Rhif 34 yn amlygu'r thema o ddiffyg adnabyddiaeth rhwng gŵr a gwraig.
33. Mae pawb yn newid, mae hyd yn oed atgofion yn newid,…	**Llywelyn** ➔ Alis	70	
34. Dechrau 'nabod ei gilydd mae pob gŵr a gwraig	**Llywelyn** ➔ Alis	71	
35. Rhodd enbyd yw bywyd i bawb.	**Llywelyn** ➔ Alis	71	
36. Greddf mam yw gwraidd pob cariad,…	**Alis** ➔ Llywelyn	71	
37. Gorchfygu yw maddau.	**Siwan** ➔ Llywelyn	79	
38. … 'roedd hi'n ifanc ei hysbryd cyn ei charchar.	**Alis** ➔ Llywelyn	70	Siwan – rhaid i'r prif gymeriad newid trwy brofiad mewn drama glasurol.
39. Crogi Gwilym Brewys a'i crinodd hi, Aeth ei nwyfiant hi gyda Gwilym i gwlwm rhaff.	**Llywelyn** ➔ Alis am Siwan	70	
40. Plentyn oedd Gwilym Brewys,…	**Alis** ➔ Llywelyn	72	Disgrifio Gwilym – yn awgrymu beth?
41. Mae tynged Cymru yn ei dwylo hi.	**Llywelyn** ➔ Alis	72	Ymddygiad Siwan yn allweddol i ddiogelwch Gwynedd. Rhaid i brif gymeriadau dramâu clasurol ymddwyn mewn ffordd briodol neu daw dinistr i bawb.
42. Mae arna' i d'eisiau di, Siwan. Apêl yw hyn, nid gorchymyn.	**Llywelyn** ➔ Siwan	73	Newid yn Llywelyn.
43. Mae etifeddiaeth Dafydd yn y fantol.	**Siwan** ➔ Llywelyn	76	Y ddau'n dechrau dod i ddealltwriaeth.
44. Mae dy lafur di a minnau yn y fantol…	**Llywelyn** ➔ Siwan	76	
45. Gan wybod fod coron Aberffraw a theyrnas Gwynedd Ar antur enbyd y crogais i Gwilym Brewys.	**Llywelyn** ➔ Siwan	77	Arddangos cymhelliant Llywelyn. Crogodd Gwilym gan ddeall beth fyddai'r sgil-effeithiau.

Dyfyniad	Gan bwy wrth bwy	Tudalen	Arwyddocâd
46. Rhoddaist iddo farwolaeth dihiryn a lleidr pen ffordd…	**Siwan** ➔ Llywleyn	79	Y sarhad a gafwyd trwy grogi.
47. 'Drawodd o ar dy feddwl di, Siwan, Y gallai 'mod i'n dy garu fel Gwilym Brewys?	**Llywelyn** ➔ Siwan	79	Llinell fwyaf trist y ddrama o bosibl. Allweddol i drasiedi'r stori. Diffyg adnabyddiaeth rhwng gŵr a gwraig.
48. … adeiladais gyda thi deyrnas:…	**Siwan** ➔ Llywelyn	80	Y cwlwm sydd rhwng Siwan a Llywelyn.
49. 'Dd'wedi di wrthyf i beth a welodd Gwilym? Yn enw ugain mlynedd o orwedd ynghyd, Mae gen' i hawl i wybod.	**Siwan** ➔ Llywelyn	80	Diffyg adnabyddiaeth rhwng gŵr a gwraig. Llywelyn yn ofni cael ei weld yn wan petai Gwilym yn datgelu ei fod yn caru ei wraig.
50. 'Roedd dy Wilym yn nes ata' i, Fe'm gwelodd o fi fel person.	**Llywelyn** ➔ Siwan	80	
51. 'Dydw' i ddim yn bod iti.	**Siwan** ➔ Llywelyn	80	Diffyg adnabyddiaeth rhwng gŵr a gwraig a thrasiedi'r ddrama.
52. Gwleidyddiaeth oedd ein priodas ni	**Llywelyn** ➔ Siwan	80	
53. … bedwen arian ir … megis pe gwelswn y Greal;…	**Llywelyn** ➔ Siwan	80	Disgrifiadau o Siwan sydd yn datgelu dwyster teimladau Llywelyn tuag at ei wraig. Defnydd o wrthrychau penodol wrth greu'r disgrifiadau.
54. Felly'r addolais i di, fy fflam, o bell ac yn fud…	**Llywelyn** ➔ Siwan	81	
55. …'doedd gen i ddim iaith I ddweud fy llesmair;…	**Llywelyn** ➔ Siwan	81	
56. Bernaist yn dy ddirmyg ohonof mai polisi piau fy enaid,…	**Llywelyn** ➔ Siwan	82	
57. Gorchfygu yw maddau.	**Siwan** ➔ Llywelyn	79	Disgrifiadau o Siwan sydd yn datgelu dwyster teimladau Llywelyn tuag at ei wraig. Defnydd o wrthrychau penodol wrth greu'r disgrifiadau.
58. Y gair nad yw'n fwriad yw allwedd y galon.	**Llywelyn** ➔ Siwan	83	
59. 'Does neb ar y ddaear yma yn deall ei gilydd;…	**Siwan** ➔ Llywelyn	83	
60. Onid hynny yw priodas, ymglymu heb adnabod,…	**Llywelyn** ➔ Siwan	83	
61. 'Beth ond hapchwarae yw byw?	**Llywelyn** ➔ Siwan	83	

Dyfyniad	Gan bwy wrth bwy	Tudalen	Arwyddocâd
62. Rhyngom yn y gwely os dof bydd drewdod halogiad dy serch.	**Siwan** ➔ Llywelyn	86	Dod i'r cyfaddawd anesmwyth. Dod yn ôl at ei gilydd er gwaethaf problemau a natur amherffaith y berthynas.
63. Rhyngom yn y gwely os doi bydd celain yn crogi wrth raff.	**Llywelyn** ➔ Siwan	86	
64. Fi yw'r tân sy'n dy grino a'th ladd di,…	**Llywelyn** ➔ Siwan	86	
65. …hen ŵr sy'n fwy o sefydliad Nag o ddynoliaeth, y gwleidydd yn y gwely.	**Llywelyn** ➔ Siwan	86	
66. Fel cawr yn rhedeg gyrfa, gyrfa dy ryfel di.	**Llywelyn** ➔ Siwan	86	Diwedd optimistaidd. Pwysigrwydd Siwan i Llywelyn.

11. Darllen pellach

- Ceir cofnod defnyddiol gan Meic Stephens (gol.) yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), tt. 673-4.
- Mae gan y dramodydd ei hun ysgrif berthnasol ychydig flynyddoedd cyn perfformio a chyhoeddi'r ddrama: gweler Saunders Lewis, 'Priodas Tywysoges', *Baner ac Amserau Cymru* (26 Tachwedd, 1947).
- Mae Bruce Griffiths yn trafod y ddrama yn gryno, yn Saesneg, yn *Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1979), tt. 66-70, ac yn 'His Theatre', gan Alun R. Jones a Gwyn Thomas (gol.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1983), tt. 84-5 yn benodol.
- Trafodwyd y ddrama hefyd gan Alun Llywelyn-Williams: gweler 'Rhodd Enbyd yw Bywyd i Bawb', *Nes Na'r Hanesydd?* (Dinbych: Gwasg Gee, 1968), tt. 125-37.
- Mae R. M. [Bobi] Jones yn trafod *Siwan* yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (Llandybie: Christopher Davies, 1975), pennod 58: 'Tair Gwraig Saunders Lewis', tt. 383-4 yn enwedig.
- Byddai'n werth edrych ar waith Hazel Walford Davies yn *Saunders Lewis a Theatr Garthewin* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995) gan mai i gwmni Garthewin yr ysgrifennwyd y ddrama gyntaf.
- Ceir sylw i *Siwan* yn J. Ellis Williams, *Tri Dramaydd Cyfoes* (Dinbych: Gwasg Gee, 1961), tt. 38-43.
- Ceir trafodaeth ehangach gan Dafydd Glyn Jones yn 'Agweddau ar Ethos y Dramâu', yn *Saunders Lewis*, D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes (gol.) (Abertawe: Christopher Davies, 1975), tt. 178-95.
- Ceir copi o'r ddrama gyda nodiadau testunol manwl gan Ioan M. Williams yn *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn: Cyfrol 2* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000).
- John Rowlands, *'Sylwadau ar Siwan (Saunders Lewis)',* Ysgrifau Beirniadol VIII (Dinbych: Gwasg Gee 1974), tt. 277-295
- Cofier hefyd am y recordiad CD o'r ddrama gan Sain (2002): mae'r cast yn cynnwys Ioan Gruffudd, Bethan Hughes, John Ogwen a Maureen Rhys.